LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:58 Page 1

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

13 Mawrth 2007
www.wao.gov.uk

# Diogelu arian cyhoeddus ym Mhrosiectau LG, Casnewydd



LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:58 Page 2

# Diogelu arian cyhoeddus ym Mhrosiectau LG, Casnewydd

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cmyru a'm cynorthwyodd i baratoi 'r addrodiad hwn yn cynnwys Gillian Body, Ben Robertson, James Verity a Emma Weyell.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**2-4 Park Grove**
**Caerdydd**
**CF10 3PA**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yngNghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2026 0260, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:58 Page 3

# Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Mawrth 2007



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 12 |
| 1 | Rhan 1 - Arfarnwyd y prosiectau yn briodol ond yn sgîl y pecyn cymorth y cytunwyd arno, amlygwyd yr Awdurdodau yng Nghymru i risgiau pwysig | 14 |
| | Cyd-drafododd yr Awdurdodau yng Nghymru becyn cymorth ar gyfer prosiect a oedd yn fwy na'r disgwyl, ond yr oedd iddo risgiau strwythurol cynhenid | 14 |
| | Ymgymerodd y Swyddfa Gymreig â'r gwaith diwydrwydd dyladwy priodol a chafodd y cymeradwyaethau rheoleiddiol angenrheidiol | 17 |
| | Cafwyd oedi wrth gael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, ac roedd ei gymeradwyaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon a orddatganwyd o gyfanswm cost y prosiectau | 18 |
| | Roedd y pecyn cymorth wedi'i flaenlwytho, gyda'r rhan fwyaf o gymorth yn daladwy ar gamau cyntaf y prosiectau | 21 |
| | Gallai'r darpariaethau adennill mewn cytundebau cyfreithiol fod wedi bod yn gadarnach mewn sawl ffordd, ond roeddent yn ddigonol i adennill £71 miliwn oddi wrth y cwmnïau | 22 |
| 2 | Rhan 2 - Adenillodd yr Awdurdodau yng Nghymru y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a wariwyd ar y prosiectau, a sicrhaodd fargen dda er gwaethaf gwendidau yn eu sefyllfa fargeinio | 26 |
| | Rheolwyd y gwaith o ddarparu'r pecyn cymorth yn dda, gan mwyaf, ond dylai'r Awdurdodau yng Nghymru fod wedi monitro sefyllfa'r cymorth gwladwriaethol yn fwy gofalus | 26 |
| | Cymerodd yr Awdurdodau yng Nghymru gamau adennill ar yr adeg briodol | 28 |

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:58 Page 5


Cafodd yr Awdurdodau yng Nghymru setliadau da gan Hynix ac LG Electronics o dan amgylchiadau anodd 33

Cymysg fu hanes y safle ers dod i gytundeb, ond nid oes swyddi wedi goroesi o'r prosiect gwreiddiol 38

## Atodiadau 40

Atodiad 1 - Cronoleg 40

Atodiad 2 - Canlyniad y gwerthusiadau o'r prosiectau 43

# Crynodeb

**1** Roedd datblygiad LG yn Imperial Park, ger Casnewydd, yn un o'r mewnfuddsoddiadau arfaethedig mwyaf erioed yn y Deyrnas Unedig pan gafodd ei gyhoeddi gyntaf ym mis Gorffennaf 1996. Bwriad LG Electronics Inc (LGE), sef corfforaeth amlwladol o Korea, a'i his-gwmni LG Semiconductor (LGS), oedd buddsoddi £1.7 biliwn dros bum mlynedd i ddatblygu cyfadeilad gweithgynhyrchu electroneg (gwneud CRT a chydrannau eraill, a chydosod monitorau cyfrifiaduron) a chyfleuster gwneud lled-ddargludyddion. Disgwylid i'r prosiectau hyn greu 6,100 o swyddi yn y pen draw. Cynigiodd

**Ffigur 1: Ni chwblhawyd y prosiectau yn ôl y bwriad**

| | Arfaethedig | | Cyflawnwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiad a swyddi[1] | Cyfraniad cyhoeddus | Buddsoddiad a swyddi | Cyfraniad cyhoeddus |
| **LG Electronics:** Cam 1: ffatri i weithgynhyrchu tiwbiau pelydrau catod (CRTs) a chydrannau cysylltiedig; a ffatri i gydosod monitorau cyfrifiaduron | £246m 2,412 o swyddi | £94m | £225m 2,200 o swyddi (ar y mwyaf) | £87m |
| Cam 2: ehangu'r gallu i gynhyrchu, gyda chynhyrchion newydd, o bosibl, ar ôl cwblhau Cam 1 | £275m 1,998 o swyddi | £35m | £0m Dim swyddi | £0m |
| **Cyfanswm LG Electronics** | £521m 4,410 o swyddi | £129m | £225m 2,200 o swyddi (ar y mwyaf) | £87m |
| **LG Semiconductor:** Cyfleuster gwneud lled-ddargludyddion | £1,142m 1,696 o swyddi | £118m | £132m Dim swyddi[2] | £44m |
| **Y datblygiad cyfan** | **£1,663m 6,106 o swyddi** | **£247m** | **£357m 2,200 o swyddi (ar y mwyaf)** | **£131m** |

**Nodiadau**

1 Buddsoddiad cychwynnol i sefydlu'r prosiect, yn cynnwys gwariant ar hyfforddiant a ariannwyd gan y wladwriaeth, yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd ohono ym mis Ionawr 1997; nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn.
2 Crëwyd 110 o swyddi am gyfnod byr yn 1998 cyn i'r prosiect gael ei atal.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Gymreig/Llywodraeth Cynulliad Cymru*



yr Awdurdodau yng Nghymru[1] becyn cymorth o £247 miliwn i sicrhau'r datblygiad i Gymru. Hwn oedd y dyfarniad mwyaf erioed i ddenu mewnfuddsoddiad i'r Deyrnas Unedig.

2 Dechreuodd y prosiectau'n dda, ond nis cwblhawyd yn ôl y bwriad, a chrëwyd llai na hanner y swyddi disgwyliedig (Ffigur 1). Yn ei anterth, darparodd LGE 2,200 o swyddi cyn i'r ffatri CRT gau yn 2003 a'r ffatri cydosod monitorau gau yn 2006. Ataliwyd y gwaith ar y ffatri lled-ddargludyddion dros dro yn 1998 ac nis cwblhawyd, yn bennaf oherwydd anawsterau economaidd yn Korea ar y pryd.

3 Talodd yr Awdurdodau yng Nghymru £131 miliwn (53 y cant) o'r pecyn cymorth cyfan, ond rhoddodd LG gyfran lai o lawer o'i fuddsoddiad arfaethedig a chrëwyd llai o swyddi na'r disgwyl. O ganlyniad, ceisiodd yr Awdurdodau yng Nghymru adennill cyfran fawr o'r cymorth a roddwyd i'r cwmnïau. Ar ôl cyd-drafodaethau hirfaith ac anodd, adenillodd yr Awdurdodau yng Nghymru asedau gwerth £71 miliwn ar ffurf arian parod ac eiddo, sef 54 y cant o'r cymorth a roddwyd i gwmnïau LG.

4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a wnaeth yr Awdurdodau yng Nghymru ddiogelu eu buddsoddiad yn y prosiectau yn ddigonol ar ôl cyhoeddi'r datblygiad yn 1996 ac, yn benodol, a oedd y setliadau terfynol gyda'r cwmnïau yn gytundeb da i'r trethdalwr. Wrth ateb y cwestiwn hwn, ystyriwn effaith penderfyniadau a wnaed tra oedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn cyd-drafod ac yn arfarnu'r pecyn cymorth, a'r ffordd y cafodd y prosiectau eu rheoli ar ôl i'r cytundebau gael eu llofnodi. Ni wnaethom archwilio a oedd buddiannau disgwyliedig y prosiectau yn cyfiawnhau maint y pecyn cymorth y cytunwyd arno.

5 Gwnaeth yr Awdurdodau yng Nghymru ddiogelu eu buddsoddiad yn dda a chyd-drafod yn frwd i sicrhau'r cytundebau gorau posibl o dan amgylchiadau anodd. Roedd gwendidau yn y ffordd yr aseswyd ac yr ymdriniwyd â chymorth gwladwriaethol i'r prosiectau, yn strwythur y pecyn cymorth ac i ryw raddau yn narpariaethau'r cytundebau cyfreithiol. Byddai sefyllfa'r Awdurdodau yng Nghymru wedi bod yn gadarnach pe bai'r materion hyn wedi cael eu rheoli'n wahanol, ond bu'r cytundebau yn ddigon cadarn i adennill £71 miliwn oddi wrth y cwmnïau. Mae'r £60 miliwn o arian cyhoeddus nas adenillwyd, i bob pwrpas, yn cynrychioli'r swyddi a grëwyd gan LGE yn ystod ei gyfnod gweithredu, a gwerth economaidd parhaus y seilwaith ar y safle.

## Arfarnwyd y prosiectau yn briodol ond yn sgîl y pecyn cymorth, amlygwyd yr Awdurdodau yng Nghymru i risgiau pwysig

6 **Cyd-drafododd yr Awdurdodau yng Nghymru becyn cymorth ar gyfer datblygiad a oedd yn fwy na'r disgwyl, ond yr oedd iddo risgiau strwythurol cynhenid.** Cyd-drafododd yr Awdurdodau yng Nghymru becyn cymorth o £247 miliwn a oedd yn adlewyrchu'r buddiannau eithriadol a ddeuai yn sgîl y datblygiad, yn eu barn hwy. Roedd hyn yn fwy nag yr oedd y naill ochr a'r llall wedi'i ddisgwyl, ond cytunodd LGE i gynnwys ail gam o bron 2,000 o swyddi o fewn cwmpas ei

1 Defnyddir y term 'Awdurdodau yng Nghymru' drwy'r adroddiad hwn i gyd i gyfeirio at y pedwar corff yn y sector cyhoeddus a roddodd y pecyn cymorth i LG, sef y Swyddfa Gymreig (Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddarach), Awdurdod Datblygu Cymru (WDA, a unodd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2006), Cyngor Hyfforddiant a Menter Gwent (a ddaeth yn rhan o ELWa yn ddiweddarach, cyn uno yn ei dro â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2006) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Y Swyddfa Gymreig/ Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r WDA oedd yn bennaf cyfrifol am y prosiectau ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu'r cyrff hyn.

brosiect am swm cymharol fach o £33 miliwn o gymorth ychwanegol. Amcan LGE oedd sicrhau y gallai ddewis peidio â pharhau â'r cam hwn, na fyddai'n dechrau tan 1999. Dymuniad yr Awdurdodau yng Nghymru, ar y llaw arall, oedd rhwymo'r cwmni i'r prosiect cyfan - Camau 1 a 2 - hyd y gellid. Y canlyniad oedd i Gymru sicrhau datblygiad mwy byth, ond roedd mwy o risgiau'n gysylltiedig ag ef gan fod Cam 2 yn llai sicr na gweddill y prosiect.

7 **Cafodd yr Awdurdodau yng Nghymru y cymeradwyaethau angenrheidiol ac ymgymerwyd â'r gwaith diwydrwydd dyladwy priodol.** Nodwyd prif elfennau'r cytundeb yn y cytundeb fframwaith a lofnodwyd ar 9 Gorffennaf 1996. Nid oedd hwn yn gyfrwymol gyfreithiol, ac roedd yn amodol ar waith diwydrwydd dyladwy a chymeradwyaethau rheoleiddiol. Arfarnodd y Swyddfa Gymreig y prosiectau yn y ffordd arferol, gan gael y cymeradwyaethau angenrheidiol gan y Trysorlys, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Cwblhawyd cytundebau cyfreithiol ar 16 Mehefin 1997.

8 Cynhaliwyd gwerthusiadau trylwyr, a nododd fod y prosiectau'n bodloni amodau allweddol y prif fathau o gymorth:

- y cymorth a geisiwyd oedd y cymorth lleiaf posibl y gellid ei roi i sicrhau'r prosiectau;
- roedd y prosiectau'n ddichonadwy yn economaidd, a byddent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at economi'r DU dros ddeng mlynedd (amcangyfrif o £99 miliwn);
- ni fyddai'r prosiect yn cael effaith andwyol ar weithgynhyrchwyr yr un cynhyrchion yn yr Undeb Ewropeaidd, a byddai'n disodli mewnforion i'r Dwyrain Pell; ac
- roedd y £160 miliwn o gymorth yn ymwneud ag eiddo dipyn yn llai na'r gwahaniaeth rhwng y gost adeiladu a gwerth tebygol yr eiddo ar ôl iddo gael ei gwblhau.

9 Ystyriodd yr gwerthusiadau ddwy o'r risgiau a fyddai wedyn yn achosi problemau: natur gylchol y farchnad mewn lled-ddargludyddion a'r dechnoleg sgrin fflat a oedd yn datblygu ac a allai leihau'r galw am diwbiau pelydrau catod. Roedd yn rhesymol parhau â'r prosiect er gwaethaf y risgiau hyn; nid oeddent yn waeth na'r pwysau masnachol a wynebwyd gan bob cynhyrchwr yn y diwydiant perthnasol, ac roedd cynghorwyr proffesiynol o'r farn bod y prosiectau yn ddichonadwy. Fodd bynnag, nid aseswyd yn benodol y risg o flaenlwytho grant i Gam 1 o'r prosiect electroneg, er i swyddogion ddweud wrthym fod modd rheoli'r risg, yn eu barn hwy, o dan yr amgylchiadau.

10 **Cafwyd oedi wrth gael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac roedd ei gymeradwyaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon a orddatganwyd o ran costau na ellir eu cadarnhau'n gyfan gwbl.** Mae'r Undeb Ewropeaidd yn pennu terfynau ar y gyfran o gymorth y gall aelod-wladwriaethau ei rhoi i fusnesau masnachol penodol (cymorth gwladwriaethol). Ugain y cant oedd y terfyn hwn ar gyfer prosiectau LG. Mae'n rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo cynlluniau cymorth gwladwriaethol cyn i aelod-wladwriaethau eu gweithredu. Gan weithredu ar gyngor ei chyfreithwyr a'r Adran Masnach a Diwydiant, ceisiodd y Swyddfa Gymreig gymeradwyaeth yn benodol ar gyfer y pecyn cymorth i LG. Bu hon yn broses annisgwyl o hir a wnaeth beri oedi cyn llunio contractau'n derfynol a dechrau adeiladu, gan achosi rhwyg dros dro gydag LG.

11 Roedd cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd o'r pecyn cymorth yn seiliedig ar gyfanswm buddsoddiad gan LG o



£521 miliwn i LGE a £1,142 miliwn i LGS. Ni ellir cysoni'r naill na'r llall o'r ffigurau hyn yn llwyr â'r wybodaeth a roddwyd gan y cwmnïau; nid oes fawr ddim tystiolaeth i'r newidiadau gael cael eu trafod gyda hwy a'u bod wedi cytuno arnynt, ac nid adlewyrchwyd y newidiadau yn y cytundebau cyfreithiol terfynol. Pe bai'r cyfrifiadau wedi bod yn seiliedig ar ffigurau gwreiddiol LGE sef cyfanswm o £448 miliwn, byddai'r cymorth gwladwriaethol arfaethedig i LGE wedi bod yn fwy na'r terfyn o 20 y cant ac ni fyddai wedi cael ei gymeradwyo. Pe na bai Cam 2 wedi mynd rhagddo, sef risg sylweddol o gofio ansicrwydd y cam hwnnw, byddai'r pecyn cymorth gwladwriaethol wedi bod hyd yn oed yn uwch na'r terfyn o 20 y cant. Er gwaethaf y gwendidau hyn, derbyniodd y Comisiwn Ewropeaidd gyfanswm y buddsoddiad ar gyfer pob prosiect y cafodd ei hysbysu ohono a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 1997, ac ni heriwyd y ffigurau gan y cwmnïau ar y pryd. At hynny, roedd rhwymedigaeth ar y cwmnïau eu hunain i ddeall y rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol a chydymffurfio â hwy.

12 **Roedd y pecyn cymorth, o bosibl, wedi'i flaenlwytho â'r rhan fwyaf o'r cymorth a oedd yn daladwy ar gamau cyntaf y prosiectau.** Cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru mewn cyd-drafodaethau i dalu grant eiddo ar gyfradd o 40 y cant o'r gost adeiladu hyd nes i'r terfynau blynyddol penodol gael eu cyrraedd; cytunwyd hefyd y gellid talu un o'r grant eraill, sef Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA), ar swyddi ar Gam 1 o brosiect LGE yn unig. Creodd hyn risg fawr i'r Awdurdodau yng Nghymru, gan y gallai cwmnïau LG ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfradd gyflymach o lawer na'u gwariant eu hunain ar y prosiect, ac ychydig iawn y gallai'r Awdurdodau yng Nghymru ei wneud pe na bai buddsoddiadau a'r gwaith o greu swyddi yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad.

Yn arbennig, roedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn agored iawn i risg pe na bai Cam 2 yn mynd rhagddo.

13 **Gallai'r darpariaethau adennill fod wedi bod yn gadarnach mewn sawl ffordd, ond roeddent yn ddigonol i adennill £71 miliwn oddi wrth y cwmnïau.** Nid oedd y cytundeb cyfreithiol ar gyfer y grant datblygu eiddo (£118.9 miliwn, sef y cynllun cymorth mwyaf i'r prosiectau) yn ddigon penodol wrth ddiffinio 'cynnydd rhesymol' a 'rhoi'r gorau i gynhyrchu', dau ddigwyddiad a fyddai'n ysgogi'r broses o adennill grant o fewn amserlenni penodol. Ni roddodd ychwaith unrhyw awdurdod i adennill grant a dalwyd cyn cwblhau'r prosiect. Ac eithrio'r grant RSA, roedd y cytundebau hefyd yn ddiffygiol o ran darparu ar gyfer adennill cymorth gwladwriaethol a ordalwyd.

## Gwnaeth yr Awdurdodau yng Nghymru adennill cyfran helaeth o'r arian cyhoeddus a roddwyd, a sicrhau cytundeb da er gwaethaf gwendidau yn eu sefyllfa fargeinio

14 **Rheolwyd y gwaith o ddarparu'r pecyn cymorth yn dda, ar y cyfan, ond dylai'r Awdurdodau yng Nghymru fod wedi monitro sefyllfa'r cymorth gwladwriaethol yn fwy gofalus.** Paratôdd y WDA y safle gan roi cymorth ymarferol fel y cytunwyd ag LG, a chafodd y gwasanaethau a ddarparwyd eu canmol gan y cwmnïau. Talwyd arian i'r cwmnïau yn unol â'r cytundebau amrywiol a chyda'r mesurau diogelwch priodol.

15 Cydgysylltodd yr Awdurdodau yng Nghymru gymorth yn effeithiol ar gamau cyntaf y

prosiect, gan sefydlu grŵp llywio i gaffael a paratoi'r safle ar ran LG. Roedd gan bob corff cyhoeddus gylch gwaith clir er mwyn ymgymryd â'i ran o'r pecyn cymorth, gan gyfathrebu ar sail ad hoc yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oedd cynllun prosiect canolog na chofrestr risgiau. Gallai hyn fod wedi helpu'r Swyddfa Gymreig - ac wedyn Llywodraeth Cynulliad Cymru - i fonitro hynt y prosiectau'n gyffredinol, ac yn arbennig i fonitro buddsoddiad cyffredinol gan LG a gwariant cyhoeddus ar y prosiect er mwyn deall y sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol. Nid oedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn gwybod tan ddechrau 2000 beth oedd y sefyllfa wirioneddol, ac erbyn hynny roedd y cwmnïau wedi mynd i'r tu hwnt i'r terfyn cymorth gwladwriaethol o dipyn, a dim ond bryd hynny y gwnaethant rybuddio LGE yn ffurfiol o'r sefyllfa.

16 **Dechreuodd yr Awdurdodau yng Nghymru gymryd camau adennill ar yr adeg briodol.** Rhoddodd yr Awdurdodau yng Nghymru ddigon o gyfle i'r prosiectau ddatblygu'n llawn cyn dechrau cymryd camau adennill. O ran safle'r lled-ddargludyddion, gwnaethant helpu Hynix, y cwmni a gymerodd yr awenau oddi wrth LGS, i chwilio am brynwr ar gyfer y safle, er mai methiant fu yn y pen draw; a gwnaethant sicrhau'r arian a fuddsoddwyd ag arwystl cyfreithiol dros yr asedau ar y safle, i'w weithredu pe na chyflawnid y prosiect o fewn amserlen benodol.

17 Yn achos LGE, cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru yn 2001 i drosglwyddo'r rhan fwyaf o'r prosiect i gyd-fenter newydd â Philips, tra'n gadael y rhwymedigaethau grant gydag LGE. Heb y cytundeb hwnnw, y tebyg yw na fyddai'r gyd-fenter wedi mynd rhagddi ac y byddai'r swyddi wedi cael eu colli. Byddai'r Awdurdodau yng Nghymru wedi gorfod dechrau cymryd camau adennill rywbryd pe na bai'r prosiect wedi arwain at y swyddi a'r buddsoddiad cyfalaf disgwyliedig.

Fodd bynnag, gwnaeth yr Awdurdodau yng Nghymru drafod cynnydd yn gyffredinol ond ni wnaeth fynnu bod y cwmni yn gwneud ymrwymiad cadarn i gwblhau Cam 1 na dechrau ar Gam 2. Dim ond pan benderfynodd LG Philips gau'r ffatri CRT yn 2003 y mynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn rhaid ad-dalu'r grant.

18 **Mae gwerth y setliad gyda Hynix yn ansicr ond hwnnw oedd y cytundeb gorau posibl o dan yr amgylchiadau.** Trosglwyddodd Hynix ei eiddo yng Nghasnewydd - gwerth £17 miliwn - i'r WDA yn 2005 a thalodd hefyd £13 miliwn mewn arian parod. Ynghyd â thir nas datblygwyd, aseswyd bod y pecyn cyfan yn werth £36.65 miliwn, sef 83 y cant o'r £44 miliwn a roddwyd i LGS. Dyma'r mwyaf y gellid ei adennill o dan delerau'r cytundebau cyfreithiol â'r cwmni. Mae gwerth yr adeilad yn ansicr iawn, gan ei fod yn arbenigol iawn a byddai angen ei addasu'n sylweddol i'w ddefnyddio at ddiben ac eithrio ar gyfer gwneud lled-ddargludyddion. Mae'r prisiad o £17 miliwn o fewn amrediad eang o werthoedd gwerthiannau realistig a nodwyd gan briswyr annibynnol.

19 Roedd hon yn gytundeb da i'r Awdurdodau yng Nghymru, oherwydd:

- adenillwyd y grant ad-daladwy cyfan (tua 83 y cant o'r cyfanswm) yn seiliedig ar brisiadau annibynnol;
- roedd sicrhau £13 miliwn mewn arian parod gan gwmni a oedd yn wynebu anawsterau ariannol mawr ac yntau heb unrhyw asedau sylweddol ac eithrio'r safle yng Nghasnewydd yn y DU yn gamp;
- peryglwyd yr arwystl cyfreithiol, o bosibl, (gweler uchod);
- roedd y cymalau adennill yng nghytundebau grant y WDA yn wan mewn sawl ffordd;



- byddai achos cyfreithiol yn Korea wedi bod yn hirfaith, yn beryglus ac yn gostus; ac
- yn sgîl y setliad, roedd modd defnyddio prif safle at ddibenion eraill.

20 **Cafodd yr Awdurdodau yng Nghymru setliad da gan LGEs o dan amgylchiadau anodd.** Adenillodd yr Awdurdodau yng Nghymru £34 miliwn gan LGE ym mis Mawrth 2004, ac o'r swm hwn £20 miliwn oedd gwerth yr eiddo gwag a aseswyd yn annibynnol. Roedd hyn yn agos iawn i'r £34.6 miliwn o grant RSA a dalwyd i LGE, gan fod cyngor cyfreithiol yn nodi mai'r cytundeb RSA oedd yr unig un gyda darpariaethau a oedd yn rhoi cyfle da i adennill arian o dan yr amgylchiadau. Cymhlethwyd y cyd-drafodaethau gan y mater yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol: cafwyd dryswch o ran pa gostau y gellid eu cynnwys a faint o log y dylid ei gyfrifo, a mynegodd y cwmni bryder am y modd yr oedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn ymdrin â chymorth gwladwriaethol dros gyfnod y prosiect. Eto i gyd, roedd strategaeth gyd-drafod yr Awdurdodau yng Nghymru yn un gadarn, a fanteisiodd i'r eithaf ar eu sefyllfa fargeinio.

21 Ar y cyfan, roedd y cytundeb yn un da oherwydd:

- Gellid amddiffyn gwerth yr hyn a adenillwyd o'i gymharu â'r buddiannau economaidd ddaeth yn sgîl y prosiect a cholledion mawr LGE. Roedd yr arian parod, a chost wreiddiol yr asedau a adenillwyd tua 70 y cant o'r arian cyhoeddus a roddwyd i'r prosiect. Ar werth y farchnad, roedd yr arian parod a'r asedau yn 40 y cant o'r holl arian a roddwyd i'r cwmni.
- Nid oedd gan yr Awdurdodau yng Nghymru unrhyw achos ar y pryd (neu un amheus o leiaf) dros adennill unrhyw grantiau ar wahân i RSA, y llwyddwyd i adennill 98 y cant ohono.
- Roedd y modd yr ymdriniwyd â chymorth gwladwriaethol yn golygu bod y Cynulliad yn agored i gamau cyfreithiol dyrys.
- Roedd swyddogion o'r farn na ellid cael cynnig gwell a bod risg fawr y byddai LGEs yn cau ei weithrediadau eraill yng Nghymru pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dwyn achos cyfreithiol. Byddai hwn wedi bod yn hirfaith, yn llawn risg ac yn gostus, gan arwain at oedi mawr cyn ailgylchu'r safle at ddefnyddiau eraill.

22 **Cymysg fu hanes y safle ers pennu'r setliadau, ond nid oes unrhyw swyddi yn weddill o'r prosiectau gwreiddiol.** Caeodd LG Electronics ei ffatri monitorau ym mis Rhagfyr 2006, ar ôl cynyddu ei gynhyrchiant a'i weithlu, i ddechrau, er mwyn cynhyrchu monitorau sgriniau gwastad. Mae'r cwmni wrthi'n gwaredu ei eiddo i ddatblygwr eiddo mawr o Gymru sy'n bwriadu creu parc busnes diwydiannol a masnachol o'r radd flaenaf. Caffaelwyd safle LG Philips gan Quinn, gweithgynhyrchwr rheiddiaduron o Iwerddon, a fydd yn darparu 460 o swyddi gweithgynhyrchu medrus. Erys safle Hynix yn wag o hyd, a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n berchen arno ac yn ei gynnal a'i gadw. Fel cyfleuster gwneud lled-ddargludyddion nid yw'n gyfoes bellach, ond gellid ei addasu am gost gymharol fach ac mae ar gael i'w feddiannu ar unwaith. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gobeithio y gellir cael defnydd ar gyfer y safle o dan Brif Gynllun Gorllewin Casnewydd, ac y bydd ei werth yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i adeiladu trafford newydd yr M4 i'r de o'r safle.

# Argymhellion

23 Roedd LG mewn sefyllfa dda i fargeinio pan oedd yn chwilio am safle i'w ddatblygu, un o'r mwyaf yn y byd ar y pryd. Bu'n rhaid i'r Awdurdodau yng Nghymru gyfaddawdu o ran strwythur ac amodau'r pecyn cymorth er mwyn sicrhau'r buddsoddiad. Pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r prosiectau'n parhau yn ôl y disgwyl, cymerodd yr Awdurdodau yng Nghymru gamau priodol i adennill arian cyhoeddus a sicrhau setliadau gyda'r ddau gwmni y gellid eu hamddiffyn. Eto i gyd, dengys yr hyn a ddigwyddodd yn y pen draw fod rhai gwersi i brosiectau tebyg.

## Cymorth gwladwriaethol

i Trwy gydol oes y prosiect electroneg, bu diffyg eglurder ynghylch llawer o'r materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol: maint y buddsoddiad cyffredinol gan LG, yr arian a oedd yn cyfateb i gymorth gwladwriaethol, dwysedd gwirioneddol y cymorth pan oedd y prosiect yn weithredol, a'r gwaith o gyfrifo'r gordaliad ar ôl i'r prosiectau ddod i ben. Nid oedd modd osgoi rhywfaint o'r ansicrwydd hwn. Ar ôl llofnodi'r cytundebau, ni wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gadw llygad ar sefyllfa'r cymorth gwladwriaethol. Yn gam neu'n gymwys, gwnaeth LGE ddadlau na fu'r Swyddfa Gymreig yn ymddwyn yn agored ynghylch y materion perthnasol, a bod y canfyddiad hwn wedi cael effaith andwyol ar sefyllfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyd-drafodaethau i adennill arian. Argymhellwn, ar gyfer prosiectau mawr yn y dyfodol sy'n debyg i LG, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a Cadarnhau, ar ôl cytuno mewn egwyddor ar becyn cymorth, a oes unrhyw elfennau ohono nad ydynt yn rhan o'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac os felly, rhoi gwybod am y pecyn cyfan yn ddi-oed.

b Cadarnhau'r ffigur buddsoddi a gyflwynir i'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o'r broses gymeradwyo, a dogfennu hyn yn llawn. Dylid cadarnhau gwybodaeth o'r fath ymlaen llaw gyda'r ymgeisydd, a'i chysoni â chytundebau ariannu.

c Oni bai bod rhesymau cymhellol oherwydd cyfrinachedd neu bolisi cyhoeddus a allai gyfyngu ar hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod mor agored â phosibl ynglŷn â chymorth gwladwriaethol gyda'r sawl sy'n ei dderbyn.

ch Monitro cymorth gwladwriaethol tra bydd y prosiect yn cael ei weithredu. Dylai'r wybodaeth angenrheidiol gael ei gasglu a'i dadansoddi ar gyfnodau priodol gan rywun â chyfrifoldeb clir am y dasg honno.

## Pwerau i adennill cymorth

ii Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau cyhoeddus bwerau cyfreithiol cadarn i adennill eu harian os na fydd prosiectau'n mynd rhagddynt fel y dylent. Roedd y gyfres o gytundebau a lofnodwyd gan yr Awdurdodau yng Nghymru gyda Grŵp LG yn ddigonol, yn y pen draw, i adennill £71 miliwn gan y cwmnïau ond dengys profiad y gallent fod wedi bod yn dynnach mewn sawl ffordd. Argymhellwn, ar gyfer prosiectau tebyg:

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:59 Page 13



**a** y dylai cytundebau cyfreithiol sy'n darparu asedau er budd penodol buddsoddwyr - er enghraifft, tir a seilwaith - gynnwys amodau a fydd yn fodd i adennill yr asedau neu eu gwerth os bydd y prosiect yn methu â gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn y targedau;

**b** y dylid cynnwys cymal cyffredinol a fydd yn fodd i adennill cymorth gwladwriaethol pe bai cwmni yn mynd y tu hwnt i'r terfynau mewn cytundeb cyffredinol, neu mewn cytundeb ariannu perthnasol;

**c** y dylai pob cytundeb grant gynnwys amodau addas ar gyfer atal ac adennill grant cyn cwblhau prosiect, yn seiliedig ar feini prawf penodol, yn ogystal ag adennill arian grant ar ôl cwblhau; ac

**ch** y dylai cytundebau ariannu nodi'n glir am ba hyd y mae'r amodau adennill yn gymwys a phryd y bydd y cyfnod hwn yn dechrau.

## Blaenlwytho cymorth

**iii** Yn aml, mae angen darparu mwy o arian ar gamau cyntaf prosiect nag y gellid ei gyfiawnhau fel arall gan y gwariant sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hwn yn faes dilys i'w drafod â darpar fuddsoddwr, ond mae angen rheoli'r risgiau cysylltiedig. Yn achos LG, oherwydd y cytundebau, roedd yn gallu atal y ddau brosiect a rhoddwyd llawer mwy o gymorth na therfynau cymorth gwladwriaethol. O ran LG Electronics, roedd y grant RSA cyfan yn daladwy ar Gam 1, felly ychydig iawn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hawlio pe bai Cam 2 yn cynnig llai o swyddi na'r disgwyl. Argymhellwn:

**a** o dan amgylchiadau eithriadol, os oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau sy'n gysylltiedig â swyddi mewn perthynas ag un cam o brosiect yn unig, yna dylai'r cytundebau gynnwys darpariaethau clir iawn ar gyfer adennill arian grant os na fydd nifer y swyddi ar gyfer y prosiect cyfan yn cyflawni'r targedau; a

**b** lle y bydd angen blaenlwytho cymorth i sicrhau prosiect, dylid hysbysu'r ymgeisydd, yn ysgrifenedig, o oblygiadau peidio â gwneud hynny.

# Rhan 1 - Arfarnwyd y prosiectau yn briodol ond yn sgîl y pecyn cymorth y cytunwyd arno, amlygwyd yr Awdurdodau yng Nghymru i risgiau pwysig

1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn asesu camau cyntaf prosiectau LG, o'r cyd-drafodaethau cychwynnol â'r cwmnïau ar ddechrau 1996 nes i'r cytundebau cyfreithiol gael eu llofnodi ym mis Mehefin 1997. Cafodd penderfyniadau a wnaed yn ystod y cam hwn effaith fawr ar ddigwyddiadau dilynol. Ystyriwn:

- drafodaethau'r cytundeb fframwaith;
- gwaith arfarnu a diwydrwydd dyladwy ar y prosiectau;
- yr angen i gael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd am y pecyn cymorth;
- amseru'r taliadau grant, yn arbennig grantiau sy'n gysylltiedig â swyddi; a
- digonolrwydd telerau'r cytundebau cyfreithiol.

## Cyd-drafododd yr Awdurdodau yng Nghymru becyn cymorth ar gyfer prosiect a oedd yn fwy na'r disgwyl, ond yr oedd iddo risgiau strwythurol cynhenid

1.2 Ar 9 Gorffennaf 1996, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd a Grŵp LG y câi'r ddau brosiect (LG Electronics a LG Semiconductor) eu cydleoli yn Imperial Park, Casnewydd. Ar yr un diwrnod, llofnododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) gytundeb fframwaith gyda'r Grŵp LG a nododd swm ac amseriad dangosol buddsoddiadau a chymorth gwladwriaethol, ac amlinellodd yr amodau a fyddai'n gymwys i'r arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn y prosiect. Nid oedd y cytundeb hwn yn gyfreithiol gyfrwymol, ac roedd yn amodol ar gwblhau

### Prosiectau LG

Roedd datblygiad LG yn cynnwys dau brosiect gwahanol:

**LG Electronics (LGE):** prif ran y prosiect hwn oedd cyfadeilad o ffatrïoedd yn gweithgynhyrchu CRT (ar gyfer setiau teledu lliw a monitorau cyfrifiaduron) a chydrannau cysylltiedig. Byddai ffatri i gydosod monitorau cyfrifiaduron, a fyddai'n defnyddio llawer o'r CRT a gynhyrchid ar y safle. Byddai'r cam cyntaf hwn o'r prosiect yn golygu cost gyfalaf o £246 miliwn i LG (gan gynnwys tir a seilwaith ar y safle) ac yn creu 2,412 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Byddai ail gam, tua'r un maint, yn dilyn ar ôl cwblhau'r cam cyntaf; penderfynid ar y cynhyrchion yn ddiweddarach. Byddai hyn yn costio £275 miliwn ac yn cyflogi tua 2,000 o bobl.

**LG Semicon (LGS):** cyfleuster gwneud lled-ddargludyddion. Byddai hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phrofi lled-ddargludyddion, sef cydran allweddol mewn cyfrifiaduron personol, ffonau symudol a chynhyrchion electronig eraill. Byddai'r prosiect yn costio tua £1,142 miliwn (gan gynnwys tir a seilwaith ar y safle) a byddai'n cyflogi 1,696 o bobl ar ôl iddo gael ei gwblhau. Byddai LGS yn cyflwyno diwydiant a oedd ar flaen y gad ac yn gyfalaf-ddwys i Gymru, gyda swyddi hyfedr a chryn swyddogaeth ymchwil a datblygu. Roedd LGE yn fusnes gweithgynhyrchu a chydosod mwy traddodiadol o fath a oedd wedi hen sefydlu yng Nghymru. Byddai'n darparu mwy o swyddi, ond swyddi cyflog is a llai medrus na'r rhai yn LGS.

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:59 Page 15



gweithdrefnau arfarnu prosiect y Swyddfa Gymreig yn foddhaol.

**1.3** Roedd y cytundeb fframwaith yn ffrwyth misoedd lawer o gyd-drafod ag LG, ac yn ystod y cyfnod hwn wynebai'r WDA a'r Swyddfa Gymreig gystadleuaeth frwd gan gwmnïau a rhanbarthau Ewropeaidd eraill. Roedd y WDA (gyda chymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig) ym mis Mawrth 1996 wedi gwneud cynnig dangosol o £210 miliwn ar gyfer 4,900 o swyddi yn y datblygiad cyfunol. Yn dilyn hyn, roedd LG yn awyddus i leihau nifer y swyddi o 800. Byddai hyn wedi arwain at gost fesul swydd o fwy na £50,000 (a oedd yn ddigynsail ar gyfer pecynnau cymorth gwladwriaethol yn y DU), a oedd yn annerbyniol, ym marn y Swyddfa Gymreig, yng ngoleuni'r pwysau ariannol mawr y byddai pecyn o'r fath wedi'u creu mewn cyfnod o gyllidebu tynn.

**1.4** Roedd lleoliad y prosiectau yng Nghymru mewn perygl, yn ôl pob tebyg, hyd nes i'r partïon gytuno i gyfaddawdu mewn cylch terfynol o gyd-drafodaethau yn Korea. Byddai LG yn adeiladu datblygiad mwy o faint, gan gynnwys ail gam ar gyfer y prosiect electroneg, a fyddai'n darparu tua 6,100 o swyddi yn hytrach na 4,100. Yn gyfnewid am hyn, byddai'r Awdurdodau yng Nghymru yn rhoi pecyn cymorth mwy o faint, gwerth £247 miliwn. Roedd y rhai a fu'n rhan o'r cyd-drafodaethau yn falch iawn o'r cytundeb: darparodd 1,150 o swyddi ychwanegol am swm cymharol fach sef £33 miliwn[2], gan leihau'r gost fesul swydd i £39,800.

**1.5** Fodd bynnag, mynnodd LG ar un amod arbennig o bwysig: ni fyddai'r ail gam o'r elfen electroneg yn dechrau tan 1999 o leiaf, pan gâi cynhyrchion eu dethol ar sail amodau'r farchnad ar y pryd. Amcan LG oedd sicrhau y gallai ddewis peidio â pharhau â Cham 2. Roedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn awyddus i rwymo'r cwmni i'r prosiect cyfan - Camau 1 a 2 - hyd y gellid. Datblygwyd cytundebau yn dilyn hyn a oedd yn adlewyrchu cyfaddawd rhwng y ddau safbwynt hyn. Byddai LGE yn gallu dewis peidio â pharhau â Cham 2 o dan y cytundeb grant eiddo, a thrwy hynny hepgor £35 miliwn o'r grant, ond câi'r £41 miliwn o grant RSA ei dalu ar gyfer y ddau gam[3]. Dywedodd swyddogion a oedd yn gysylltiedig â hyn ar y pryd eu bod yn hyderus y byddai'r ddau gam yn mynd rhagddynt gan fod y cytundeb fframwaith wedi'i lofnodi gan lywydd grŵp LG, gan awgrymu cymeradwyaeth ar y lefel uchaf. Canlyniad hyn oedd bod y pecyn cymorth i LGE yn canolbwyntio ar Gam 1 yn bennaf, heb unrhyw ran o'r £35 miliwn ar gyfer Cam 2 wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â nifer y swyddi.

**1.6** Roedd y pecyn cymorth terfynol y cytunwyd arno (Ffigur 2) yn cyfateb i £247.2 miliwn (tua £4 miliwn yn fwy nag a ragwelwyd ar ôl disodli'r amcangyfrifon o gost tir a gwaith ar y safle gan brisiadau proffesiynol). Gan fod y pecyn cymorth wedi'i rannu'n gyfartal, fwy neu lai, rhwng y ddau brosiect ond bod LGS yn brosiect drutach o lawer, roedd anghyfartaledd o ran dwysedd cymorth: byddai arian cyhoeddus ynghlwm wrth gyfran fwy o lawer o gost y prosiect electroneg na chost y prosiect lled-ddargludyddion.

---

**2** Dechreuodd y cyd-drafodaethau terfynol o gynnig dangosol o £210 miliwn am tua 4,950 o swyddi, a gorffen gydag amcangyfrif o £243 miliwn am tua 6,100 o swyddi; cynnydd o £33 miliwn yn y pecyn cymorth. Neilltuwyd £35 miliwn ar gyfer Cam 2, a throsglwyddwyd £2 filiwn i'r cam hwnnw o Gam 1 a'r prosiect lled-ddargludyddion.

**3** Cafodd y cytundeb ynglŷn ag RSA ei ddrafftio yn unol â'r cytundeb hwn, ond roedd y fersiwn terfynol yn cynnwys cymal a geisiwyd gan gyfreithwyr LG yn dileu pŵer yr Awdurdodau yng Nghymru i atal neu adennill grant os oedd unrhyw ddiffygion ar gam 2 (paragraff 1.21c).

## Ffigur 2: Y pecyn cymorth arfaethedig i brosiectau LG

| Cynllun / Cymorth | Diben | LGE £m | LGS £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Datblygu Cymru** | | | | |
| Grant Datblygu Eiddo (PDG) | Llenwi'r bwlch rhwng y gost adeiladu a'r amcangyfrif o'r gwerth ar y farchnad ar ôl cwblhau'r gwaith | 57.0 | 61.9 | 118.9 |
| Gwaith ar y safle | Darparu seilwaith hanfodol (ffyrdd a chyfleustodau) ar y safle | 16.2 | 10.8 | 27.0 |
| Canolfan hyfforddi | Mynediad am ddim i ganolfan hyfforddi yn Imperial Park (gwerth heb ei feintoli) | | | |
| Cymorth proffesiynol | Cymorth proffesiynol yn ystod y broses gynllunio ac adeiladu (gwerth heb ei feintoli) | | | |
| **Y Swyddfa Gymreig (Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Gorffennaf 1999)** | | | | |
| Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) | Cyfrannu at gost asedau sefydlog ar gyfer y prosiect (heb gynnwys gwaith ar y safle a ffioedd proffesiynol) a gwobrwyo creu swyddi. Telir y grant mewn rhandaliadau pan gyrhaeddir lefelau o wariant cyfalaf ac o ran creu swyddi y cytunwyd arnynt | 41.0 | 28.5 | 69.5 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd / Awdurdod Datblygu Cymru** | | | | |
| Tir | Darparu safle 250 erw ar gyfer y prosiect, am ddim[1] | 7.6 | 6.6 | 14.2 |
| **Cyngor Hyfforddiant a Menter Gwent (ELWa o 1 Ebrill 2000 ymlaen)** | | | | |
| Grantiau hyfforddi (drwy gynlluniau a oedd yn bodoli eisoes) | Cymhorthdal ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i'r gweithlu, a bennir am £5,896 fesul cyflogai i LGS a £3,151 fesul cyflogai i LGE | 7.6 | 10.0 | 17.6 |
| **Cyfanswm y cymorth arfaethedig** | | **129.4** | **117.8** | **247.2** |
| **Dwysedd cymorth net[2]** | | **18.7%** | **7.7%** | |

**Nodiadau**

1 Darparwyd y tir am swm enwol, yn rhannol gan y Cyngor ac yn rhannol gan y WDA, gyda'r Cyngor yn cymryd arnynt y gost am y tir ar gyfer LGE (gwerth £7.6 miliwn) a'r WDA yn cymryd arnynt y gost am y tir ar gyfer LGS (gwerth £6.6 miliwn).

2 Mae'r dwysedd cymorth net (a elwir hefyd yn gyfwerth â grant net) yn fesur safonol a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd i asesu cyfran cost prosiect a ariennir gan y wladwriaeth. Hynny yw, cyfanswm y taliadau cymorth gwladwriaethol (llai Treth Gorfforaethol) fel cyfran o'r buddsoddiad cyfalaf cyfan yn y prosiect. Caiff pob llif arian parod ei ddisgowntio am gost safonol o gyfalaf (10.2 y cant y flwyddyn yn achos LG). Gweler Paragraff 1.13 am ragor o fanylion am gymorth gwladwriaethol.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Gymreig/Llywodraeth Cynulliad Cymru*

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 15:59 Page 17



## Ymgymerodd y Swyddfa Gymreig â'r gwaith diwydrwydd dyladwy priodol a chafodd y cymeradwyaethau rheoleiddiol angenrheidiol

**1.7** Ar ôl llofnodi'r cytundeb fframwaith, bwriad yr Awdurdodau yng Nghymru oedd llunio cytundebau terfynol yn gyflym gan fod cwmnïau LG yn awyddus i ddechrau adeiladu cyn gynted â phosibl. Ymgymerodd yr Awdurdodau yng Nghymru â'r gwaith diwydrwydd dyladwy priodol yn unol â chanllawiau ac arfer sefydledig ar gyfer prosiectau mawr. Roedd hyn yn cynnwys:

- **a** Gwerthusiad technegol a masnachol o ddichonolrwydd y prosiectau o ran eu proses gynhyrchu, cynhyrchiant a'r farchnad ar gyfer eu cynhyrchion. Ceisiwyd cyngor gan arbenigwyr yn y farchnad yn yr Adran Masnach a Diwydiant.
- **b** Gwerthusiad ariannol llawn yn asesu cryfder cynlluniau busnes y prosiectau a dichonolrwydd ariannol yr ymgeiswyr.
- **c** Gwerthusiad economaidd llawn, yn asesu'r budd net i economi'r DU ar ôl rhoi cyfrif am dreth gorfforaethol, disodli cynhyrchwyr presennol yn y DU a'r effaith ar gyflenwyr a sgiliau'r gweithlu. Asesodd hefyd effaith risgiau penodol, megis newid mewn prisiau uned neu nifer y gwerthiannau.
- **ch** Prisiad proffesiynol annibynnol o'r datblygiad arfaethedig, i ddangos bod y diffyg rhwng gwerth terfynol yr eiddo ar y farchnad a'r gost o'i adeiladu yn fwy na'r swm o gymorth ariannol yn ymwneud ag eiddo a ddarparwyd gan yr Awdurdodau yng Nghymru.
- **d** Asesiad risg cyffredinol o'r prosiect, gydag argymhelliad ar sail y swm o grant y dylid ei gynnig. Defnyddiodd hyn yr gwerthusiadau penodol gan gynnwys asesiad o ychwaneged (y budd ychwanegol y byddai'r grant yn ei gynnig i'r trethdalwr, ac ai grant lleiaf posibl oedd ei angen i sicrhau'r prosiect oedd y grant a gynigid).

**1.8** Cafodd swyddogion y caniatadau a'r cymeradwyaethau angenrheidiol ar gyfer y prosiectau cyn llunio cytundebau cyfreithiol terfynol ym mis Mehefin 1997, gan gynnwys:

- **a** cefnogaeth Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru (WIDAB), sef grŵp o gynghorwyr allanol gyda chefndir ym maes busnes sy'n craffu ar geisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) ac yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol (Medi 1996);
- **b** y Trysorlys, yr oedd yn rhaid iddo, ar y pryd, gymeradwyo'r holl becynnau cymorth mawr (Hydref 1996);
- **c** cymeradwyaeth Bwrdd y WDA ar gyfer y cymorth a roddwyd gan y WDA;
- **ch** caniatâd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar gyfer y pecyn cymorth cyfan a'r elfennau penodol ohono (ar gamau, tan fis Rhagfyr 1996); a
- **d** chadarnhad gan y Comisiwn Ewropeaidd nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau i'r pecyn cymorth (Mawrth 1997).

**1.9** Cyflawnwyd y gwaith diwydrwydd dyladwy llawn ar gyfer prosiectau LG ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad mewn egwyddor i gefnogi'r prosiectau: roedd y cytundeb fframwaith yn ymrwymiad cyhoeddus a fyddai wedi bod yn anodd iawn ei ddiddymu pe bai'r gwerthusiadau wedi nodi nad oedd y prosiectau'n ddichonadwy neu'n economaidd.

Roedd y Trysorlys yn siomedig bod y Swyddfa Gymreig wedi gofyn am ei gymeradwyaeth ar gyfer y prosiect ar fyr rybudd (wythnos cyn llofnodi'r cytundeb fframwaith) a chyda fawr ddim manylion ynghylch yr achos busnes dros gefnogi'r prosiect; ataliodd y Trysorlys ei gymeradwyaeth lawn hyd nes i'r gwerthusiadau gael eu cwblhau.

**1.10** Nododd y gwerthusiadau a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gymreig fod i gynlluniau'r cwmnïau sail gadarn a bod y cwmnïau mewn sefyllfa dda i'w cyflawni. Canfu'r gwerthusiad economaidd llawn hefyd y byddai'r prosiectau yn gwneud cyfraniad net o £99 miliwn at incwm cenedlaethol y DU, y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar gyflenwyr a sgiliau'r gweithlu yn gyffredinol, ac na fyddent yn cael effaith andwyol ar ddiwydiannau sy'n cynhyrchu'r un nwyddau yn y DU (rhagor o fanylion yn Atodiad 2). Ystyriodd y gwerthusiadau yr holl ffactorau perthnasol ac, er bod gan y Trysorlys rai amheuon ynghylch y casgliadau y daethpwyd iddynt, yn arbennig o ran maint y grant, nid oedd yn dadlau ynghylch y prif gasgliadau na chadernid cyffredinol y gwerthusiad.

**1.11** Fodd bynnag, fe wnaeth y gwerthusiadau godi risgiau pwysig penodol a brofodd yn ddiweddarach i fod yn bwysig iawn yn hanes y prosiectau:

- **a** Roedd prisiau lled-ddargludyddion yn gyfnewidiol iawn, ac roeddent wedi gostwng 60 i 70 y cant yn 1995/1996. Ystyriwyd bod hyn yn rhan o broses gylchol arferol, a'r consensws yn y diwydiant oedd y byddai'r galw a phrisiau yn codi'n gyflym dros y blynyddoedd canlynol. Mewn gwirionedd, ni wnaeth prisiau godi mor gyflym â'r disgwyl, a'r farchnad wael oedd un o'r ffactorau a barodd i LGS atal y prosiect dros dro.
- **b** Byddai technolegau sgriniau gwastad newydd ar gyfer monitorau cyfrifiaduron yn lleihau'r galw am diwbiau pelydrau catod. Arweiniodd hyn mewn gwirionedd at brisiau yn gostwng yn 2001 a 2002, a pherodd i LG Philips gau ffatri Casnewydd yn 2003 i atal colledion cynyddol. Derbyniodd y Swyddfa Gymreig y risg hon yn realiti masnachol yr oedd LGE yn ymwybodol ohono a, dibynnodd ar gyngor arbenigol gan yr Adran Masnach a Diwydiant na welodd unrhyw reswm dros beidio â pharhau â'r prosiect.
- **c** Roedd Cam 2 o'r prosiect electroneg yn ansicr, eto, roedd y pecyn cymorth wedi'i ogwyddo tuag at Gam 1. Nid oedd y Bwrdd na'r Trysorlys yn ymwybodol o'r ffaith bod y grant RSA (yn wahanol i'r pecyn cymorth cyfan) yn gwbl daladwy am Gam 1, er bod Cam 2 yn ymddangos fel pe bai'n rhan o'r prosiect electroneg (paragraffau 1.5-1.6).

**1.12** Un risg nas ystyriwyd ar y pryd oedd methiant economi Korea yn 1998, na allai'r Swyddfa Gymreig yn rhesymol fod wedi'i rhagweld. Golygai hyd nad oedd gan LGS y cyllid angenrheidiol mwyach i gwblhau'r prosiect lled-ddargludyddion 1998 a hwn oedd y prif reswm dros atal y prosiect dros dro yn 1998.

## Cafwyd oedi wrth gael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, ac roedd ei gymeradwyaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon a orddatganwyd o gyfanswm cost y prosiectau

**1.13** Cymorth ariannol oddi wrth y sector cyhoeddus sy'n ffafrio un busnes masnachol dros un arall yw cymorth gwladwriaethol (gweler Blwch A). Mae'r Undeb Ewropeaidd yn pennu terfynau ar gyfer cymorth gwladwriaethol mewn meysydd a sectorau



## Blwch A - y rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol

Mae Cytuniad y CE yn gwahardd awdurdodau mewn aelod-wladwriaethau rhag rhoi cymorth gwladwriaethol sy'n ystumio cystadleuaeth a masnach yn yr UE. Mae erthyglau 87 i 89 yn rhoi pwerau eang i'r Comisiwn Ewropeaidd i ymchwilio i gymorthdaliadau a dalwyd yn anghyfreithlon ac i orchymyn iddynt gael eu had-dalu. Nid yw Cytuniad y CE ei hun yn diffinio cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn a Llys Cyfiawnder Ewrop wedi dehongli'r term yn eang iawn i gynnwys nifer o wahanol fathau o gymorth ariannol gwladwriaethol neu fantais economaidd. Yn amlwg, mae'r rheolau yn gymwys i grantiau uniongyrchol gan wladwriaeth (er enghraifft, cymorth grant i ddenu mewnfuddsoddiad), ond mae'r rheolau hefyd yn gymwys i fathau eraill, llai amlwg, o gymorth: eithriadau treth, benthyciadau ar gyfraddau llog gostyngol, gwarantau neu sicrwydd ar delerau ffafriol, gwerthu tir am lai na'i werth ar y farchnad, neu ddileu dyledion.

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu canllawiau, fframweithiau ac eithriadau cyffredinol i egluro ei bolisi ynglŷn â chymorth gwladwriaethol. Er enghraifft, mae wedi pennu rheolau penodol, gan gynnwys eithriadau, ar gyfer meysydd megis ymchwil a datblygu, diogelu'r amgylchedd a hyfforddiant. Roedd prosiect LG wedi'i gwmpasu gan ddarpariaeth a oedd yn caniatáu i aelod-wladwriaethau roi cymorth, o fewn terfynau penodol, i annog buddsoddiad mewn rhanbarthau a oedd ar ei hôl hi o ran datblygu.

Mae'n rhaid i gymorth rhanbarthol o'r fath i unrhyw fusnes fod o fewn y terfyn dwysedd cymorth net ar gyfer y maes perthnasol. Roedd y rheolau yn 1996 yn debyg i'r rhain sy'n gymwys heddiw, ond mae'r terfyn cymorth rhanbarthol yng Nghasnewydd wedi gostwng o 20 y cant i 15 y cant o gostau prosiectau, a chyflwynwyd terfynau is ar gyfer prosiectau mawr iawn.

arbennig. Yn 1996, ni allai'r cymorth gwladwriaethol i brosiectau LG (ar ôl didynnu treth gorfforaethol) fod yn fwy nag 20 y cant o gyfanswm cost pob prosiect.

**1.14** Roedd y Swyddfa Gymreig o'r farn nad oedd y grantiau tir, gwaith safle a hyfforddiant o reidrwydd yn gyfystyr â chymorth gwladwriaethol, a chytunai â llywodraeth y DU nad oedd y Grant Datblygu Eiddo yn gymorth gwladwriaethol. Ar sail profiad blaenorol o ran ymdrin â phrosiectau tebyg, daeth yr Awdurdodau yng Nghymru i'r casgliad y byddai'r dwysedd cymorth cyffredinol ar gyfer y datblygiad cyfan yn is o lawer na'r terfyn o 20 y cant - yn arbennig pe na chynhwysai mathau penodol o gymorth.

**1.15** Felly tybiai'r Swyddfa Gymreig y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymdrin â'r hysbysiad yn gyflym ac yn derbyn y pecyn cymorth heb amheuaeth. Ond nododd y Comisiwn y byddai'n trin pob math o gymorth fel cymorth gwladwriaethol ac y byddai'n asesu'r ddau brosiect ar wahân. Pan ddaeth hyn yn glir, roedd yn amlwg y byddai'r prosiect electroneg yn mynd y tu hwnt i'r terfyn o 20 y cant pe bai'n seiliedig ar y ffigurau gwariant cyfalaf yn unig (sy'n gyfanswm o £425 miliwn) a nodwyd yng nghynllun busnes LGE ac a ddefnyddiwyd ym mhob trafodaeth a gwerthusiad. Felly adolygodd yr Awdurdodau yng Nghymru yr holl wybodaeth a oedd ar gael am wariant cyfalaf posibl er mwyn cynnwys symiau a hepgorwyd o'r blaen, megis gwerth y tir a chostau'r gwaith ar y safle. Gwnaethant hefyd ailasesu costau adeiladu tebyg a chynnwys amcangyfrifon newydd ar gyfer ffioedd proffesiynol, costau wrth gefn, a chwyddiant mewn prisiau. Roedd yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar brisiadau proffesiynol a gomisiynwyd gan y WDA. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, dywedodd y Swyddfa Gymreig wrth y Comisiwn ym mis Ionawr 1997 mai £521 miliwn fyddai'r buddsoddiad ym mhrosiect LGE. Derbyniodd y Comisiwn y costau diwygiedig ac asesu'r dwysedd cymorth i LGE, sef 18.7 y cant, o fewn y terfyn o 20 y cant. Y dwysedd cymorth net ar

gyfer LGS oedd 7.7 y cant, sy'n is o lawer na'r terfyn o 20 y cant.

**1.16** O'r £96 miliwn ychwanegol yng ngwerth buddsoddiad LGE, roedd £24 miliwn yn amlwg yn ychwanegiad dilys am dir a gwaith ar y safle. Gellid priodoli'r £72 miliwn arall i amcangyfrifon diwygiedig o wariant LGE:

**a** Roedd y Swyddfa Gymreig yn cynnwys ffigur o £275 miliwn ar gyfer Cam 2 o'r prosiect electroneg, er bod LG wedi amcangyfrif mai £217 miliwn fyddai'r gost. Roedd yr amcangyfrif uwch yn seiliedig ar y dybiaeth bod a wnelo'r cyfanswm cost cyfalaf yng nghynllun busnes LG ag offer a pheiriannau yn unig, ond nid oedd tystiolaeth i ategu'r dybiaeth hon. O ganlyniad mae'n bosibl bod y ffigur yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd ohono wedi cyfrif costau adeiladau o £58 miliwn ddwywaith.

**b** Nid oes tystiolaeth i'r swyddogion drafod y newidiadau gyda'r cwmnïau na cheisio eu cytundeb yn eu cylch - er gwaethaf y diwygiadau sylweddol i nifer o'r amcangyfrifon o gostau - er i swyddogion roi sicrwydd i ni eu bod wedi gwneud hynny. Yn wir, nid yw'r cytundeb RSA terfynol yn adlewyrchu'r newidiadau hyn o ran costau: Roedd yn seiliedig ar y ffigurau a ddarparwyd yn wreiddiol yng nghynllun busnes LG tua naw mis yn gynharach. Yn gyffredinol, roedd y trywydd archwilio yn ddiffygiol o ran dangos ffynhonnell y ffigurau a sut yr oeddent yn gyson â'r wybodaeth a roddwyd gan gwmnïau LG yn wreiddiol.

**1.17** Dywedodd swyddogion wrthym fod y gwaith o gadw cofnodion ar adeg y cyd-drafodaethau ag LG wedi bod yn llai trylwyr o bosibl nag arfer oherwydd y pwysau mawr o ran amser, gwybodaeth a oedd yn newid yn gyflym oddi wrth amryw ffynonellau a'r anhawster i gydlynu ymateb yn gyflym oddi wrth nifer o unigolion. Fodd bynnag, roeddent yn hyderus, ac eithrio'r costau adeiladu a orddatganwyd ar gyfer Cam 2, o bosibl, fod y costau yr hysbyswyd y Comisiwn ohonynt yn deg ac yn gywir. Yn wir, cyhoeddwyd cyfanswm y ffigur buddsoddi ar gyfer pob prosiect yn natganiad y Comisiwn Ewropeaidd i'r wasg dyddiedig 2 Ebrill 1997, ac ni chodwyd amheuon ynglŷn â'r ffigurau hyn gan LGE nac LGS ar y pryd.

**1.18** Fodd bynnag, arweiniodd hyn at risgiau i'r Awdurdodau yng Nghymru yn ogystal ag i'r LGE. Yn seiliedig ar y ffigurau gwreiddiol (£207 miliwn ar gyfer Cam 1 a £217 ar gyfer Cam 2, gyda £24 miliwn yn ychwanegol ar gyfer tir a gwaith ar y safle), byddai'r ffigurau dwysedd cymorth wedi bod yn 29 y cant ar gyfer Cam 1 ac yn 22 y cant ar gyfer y ddau gam, y naill a'r llall yn uwch na'r terfyn o 20 y cant. Byddai'n rhaid i'r cwmni fod wedi buddsoddi mwy na'r hyn yr oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol yn ei gynllun busnes i aros o fewn y terfyn cymorth gwladwriaethol. Roedd rhwymedigaeth ar LGE o dan gyfraith Ewrop i ddeall y rheolau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol a chydymffurfio â hwy. Ond nid oedd gan yr Awdurdodau yng Nghymru ddigon o dystiolaeth i gadarnhau'r ffigurau diwygiedig am fuddsoddiad, a fyddai wedi eu rhoi mewn sefyllfa anodd iawn pe bai angen adennill cymorth gwladwriaethol a ordalwyd - sefyllfa debygol pe na bai Cam 2 yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl.

**1.19** Cymerodd sawl mis i ddatrys y mater ynglŷn â chymorth gwladwriaeth ac arweiniodd hynny at oedi cyn dechrau adeiladu ac o ran llunio cytundebau cyfreithiol terfynol. Achosodd y mater rywfaint o anniddigrwydd i LG hefyd, a oedd yn bryderus bod problemau wedi codi gyda'r pecyn cymorth. Cafodd LG a'i gynghorwyr proffesiynol wybod am unrhyw ddatblygiadau pwysig gan swyddogion y Swyddfa Gymreig, ond oherwydd rheolau cyfrinachedd Llywodraeth y DU ni allai'r swyddogion ddatgelu gohebiaeth â'r Comisiwn.



## Roedd y pecyn cymorth wedi'i flaenlwytho, gyda'r rhan fwyaf o gymorth yn daladwy ar gamau cyntaf y prosiectau

**1.20** Roedd amseriad y taliadau o dan y pecyn cymorth yn fater pwysig yn ystod y cyd-drafodaethau ag LG. Cafodd yr Awdurdodau yng Nghymru y dasg o neilltuo'r arian angenrheidiol o fewn cyllidebau tynn yn un heriol, ac roeddent yn awyddus i wasgaru'r gost dros nifer o flynyddoedd. Yn naturiol, roedd LG am gael cymaint o arian â phosibl o'r cychwyn cyntaf (Blwch B).

### Blwch B - blaenlwytho

Mae blaenlwytho yn disgrifio faint o gymorth ar unrhyw adeg benodol sydd wedi'i dalu yn uwch na chyfradd gyfartalog y grant ar gyfer y prosiect (e.e. os talwyd 15 y cant o gostau ond 10 y cant yw'r cyfartaledd ar gyfer y prosiect cyfan, 5 y cant yw'r blaenlwytho). Fel arfer, mae angen blaenlwytho cymorth i ryw raddau ar gyfer buddsoddiadau mawr, yn arbennig y rhai ar safleoedd maes glas lle bo angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymhell cyn y daw llifau refeniw o'r cyfleuster a gwblhawyd. Mae blaenlwytho o'r fath yn debygol o fod yn ffactor allweddol mewn pecyn cymorth deniadol, gan ei fod yn lleihau'r all-lifau arian parod cyffredinol ac felly'r gost ariannu. Fodd bynnag, mae angen rheoli'r risgiau'n ofalus.

**1.21** Bu'r cytundeb fframwaith yn gyfaddawd: cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru i dalu grant eiddo ar gyfradd gyfartalog o 40 y cant ar gost adeiladu, ond roedd cyfanswm y cymorth yn amodol ar derfynau blynyddol a fyddai'n lleddfu'r pwysau ar y gyllideb yng Nghymru. At hynny, ni fyddai dim o'r grant RSA wedi'i dalu ar Gam 2. Arweiniodd hyn at dair risg sylweddol:

**a** Talwyd cymorth ar gyfradd uwch o lawer am waith ar y safle ac adeiladu nag ar gyfer costau cyfalaf eraill. Pe bai prosiect neu gam ohono yn oedi ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu ond cyn gosod ffitiadau, byddai cyfran y cymorth gwladwriaethol cyffredinol yn uwch o lawer na'r bwriad. Digwyddodd hyn gyda'r prosiect lled-ddargludyddion, a golygai fod cymorth gwladwriaethol yn gyfwerth â 33 y cant o gostau prosiect yn hytrach na'r 10 y cant a fwriadwyd ar gyfer y prosiect cyfan (Ffigur 3).

**b** Pe bai LGE yn penderfynu peidio â pharhau â Cham 2, ond mynd â Cham 1 yn ei flaen yn ôl y bwriad, byddai hynny'n awtomatig yn arwain at ordaliad o gymorth gwladwriaethol, gan y byddai'r cymorth a oedd yn daladwy ar gyfer y cam cyntaf yn mynd y tu hwnt i derfyn o 20 y cant a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**c** Ni fyddai'r Awdurdodau yng Nghymru wedi gallu cael iawn pe bai llai o swyddi wedi cael eu creu ar Gam 2 o'r prosiect electroneg na'r bwriad, gan fod y grant RSA cyfan yn daladwy ar Gam 1 ac RSA oedd yr unig grant a oedd yn gysylltiedig yn benodol â chreu swyddi. Roedd y cytundeb RSA drafft yn cynnwys pwerau cyffredinol i'r Swyddfa Gymreig adennill arian grant os nad aeth Cam 2 yn ei flaen,

**Ffigur 3: Dwysedd cymorth gros cyfartalog arfaethedig a gwirioneddol**

| Dwysedd cymorth gros cyfartalog | LGE | LGS | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Arfaethedig | 24.9% | 10.3% | 14.8% |
| Gwirioneddol | 37.4% | 33.5% | 36.0% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffigyrau'r cymorth a'r buddsoddiad ar ffeiliau Llywodraeth y Cynulliad.*

ond ildiodd swyddogion i gais gan gyfreithwyr LG i gyfyngu'r pwerau adennill i Gam 1 yn unig[4].


1.22 Yn anffodus, daeth yr holl risgiau hyn yn realiti. Dengys Ffigur 4 fod y cwmnïau yn gallu mynd y tu hwnt o dipyn i'r dwysedd cymorth a fwriadwyd - yn uwch o lawer na'r terfynau cymorth gwladwriaethol yn achos LGE - a'u cynnal ar y lefel honno am nifer o flynyddoedd heb fod o dan rwymedigaeth gytundebol i ad-dalu'r swm dros ben na thalu llog. Ac roedd caniatáu i LGE hawlio'r grant RSA cyfan ar Gam 1 yn unig yn anarferol iawn. Yr arfer yw talu'r grant yn llawn dim ond pan fydd y targed swyddi ar gyfer pob cam prosiect wedi'i gyflawni.


## Gallai'r darpariaethau adennill mewn cytundebau cyfreithiol fod wedi bod yn gadarnach mewn sawl ffordd, ond roeddent yn ddigonol i adennill £71 miliwn oddi wrth y cwmnïau

1.23 Yn y cytundebau cyfreithiol a oedd yn rheoli'r pecynnau cymorth roedd amodau priodol ar gyfer talu arian, archwilio gwariant, cyflwyno adroddiad ar gynnydd a'r gallu i weld dogfennau. Cafodd y Swyddfa Gymreig gadarnhad hefyd gan arianwyr perthnasol y câi arian digonol ei sicrhau, a sicrwydd gan bob rhiant-gwmni y byddai'n ariannu'r

### Ffigur 4: Roedd llawer mwy o flaenlwytho na'r disgwyl

Dengys y graffiau hyn faint o flaenlwytho a geir (arian grant a dalwyd cyn gwariant, fel y diffinnir ym Mlwch B) yn seiliedig ar fuddsoddiad arfaethedig, a faint o flaenlwytho a gafwyd mewn gwirionedd. Mae gwerth cadarnhaol yn dynodi blaenlwytho, a dengys ffigur negyddol fod y grant wedi'i dalu'n arafach na chyfradd y buddsoddi - 'ôl-lwytho".
Rhagwelwyd y byddai rhywfaint o flaenlwytho ar gyfer y ddau brosiect, ond fel mae'n digwydd, roedd dipyn yn uwch ac yn parhau'n hwy na'r bwriad.




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

4 Felly roedd y cytundeb RSA terfynol yn amwys, gan fod cwblhau'r prosiect wedi'i ddiffinio o ran camau 1 a 2 gyda' gilydd, a bod y camau adennill cyffredinol yn gysylltiedig â chwblhau'r prosiect. Yn ddiweddarach daeth swyddogion a chynghorwyr cyfreithiol i'r casgliad y byddai'r cymal ychwanegol a geisiwyd gan gyfreithwyr LG - yn cyfyngu ar atal ac adennill y grant i gam 1 yn unig - yn drech na'r cymalau adennill cyffredinol. Yna dim ond y swm o gymorth gwladwriaethol a ordalwyd, yr oedd cymal adennill penodol yn ei gylch, y gallai swyddogion fod wedi ei adennill.
Fodd bynnag, roedd y cytundeb RSA yn ddigon cadarn i adennill unrhyw ddiffygion ar gam 1 o brosiect LGE - yn wir llwyddodd swyddogion i adennill 98 y cant o'r grant a dalwyd (Paragraff 2.46c).

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 16:00 Page 23



**Ffigur 5: Darpariaethau cyfreithiol yn caniatau atal neu adennill grant**

| Math o gymorth | Gwerth £m | Darpariaethau adennill |
|---|---|---|
| Tir (CBS Casnewydd/WDA) | 14.2 | Dim, ond roedd cytundeb atodol yn 2001 angen i LGE i ddychwelyd, am ddim cost, unrhyw dir wnaeth barhau heb ddatblygiad, ar 31 Rhagfyr 2005 (Paragraff 2.24). |
| Seilwaith (WDA) | 27.0 | Dim. Roedd rhywfaint o'r seilwaith oddi ar y safle ac roedd i hyn fudd cyhoeddus ehangach ym marn y WDA. |
| RSA (y Swyddfa Gymreig) | 69.5 | Cyn cwblhau: Gall yr Ysgrifennydd Gwladol atal neu adennill unrhyw arian grant neu'r cyfan, yn ôl ei ddisgresiwn, os cred: fod y cynnydd tuag at gwblhau yn anfoddhaol; bod newid sylweddol yn natur, maint neu amseriad y prosiect; bod dyfodol y prosiect mewn perygl; nad yw eiddo nac asedau yn cael eu defnyddio at ddiben y prosiect; bod asedau yn newid dwylo heb ganiatâd; bod y prosiect yn cael cyllid heb ei gynllunio o'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, gellir atal grant (heb ei dalu byth) os na dderbynnir cais o fewn dwy flynedd i dderbyn y grant, neu os na dderbynnir y cais am grant o fewn dwy flynedd i'r dyddiad cwblhau arfaethedig (31 Rhagfyr 2003).<br>Ar ôl cwblhau: os gwaredir asedau neu os na chânt eu defnyddio mwyach ar gyfer y prosiect o fewn tair blynedd i'r taliad olaf; os na chynhelir y targed swyddi am 18 mis ar ôl y taliad olaf. |
| Grant datblygu eiddo (WDA) | 118.9 | Cyn cwblhau: gellir adennill grant os oes tor-cytundeb sylweddol; os yw'r cais yn anwir neu'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol; neu os na chwblheir y prosiect erbyn 31 Rhagfyr 2005. Yn ogystal, gellir atal grant (ond ni ellir ei adennill, os cafodd ei dalu eisoes) os na chaiff 'cynnydd rhesymol ei wneud' tuag at gwblhau cam penodol.<br>Ar ôl cwblhau: mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn y grant feddiannu a chynnal busnes ar y safle am 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Os na wna hynny, caiff y grant ei adennill ar raddfa symudol: 100 y cant yn ystod y pum mlynedd gyntaf ar ôl cwblhau, yna 80 y cant, 60 y cant ac 20 y cant ym mlynyddoedd 6 i 9 yn y drefn honno. |
| Grant hyfforddi (Cyngor Hyfforddiant a Menter Gwent) | 17.6 | Dim, oni wneir cais anwir neu gamarweiniol. Ystyrir bod i hyfforddiant fudd cyhoeddus ac unigol eang, ac felly nid yw'n briodol cynnwys amodau adennill. |
| **Total** | **247.2** | |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gytundebau cyfreithiol*

prosiectau ac yn ad-dalu unrhyw grant a oedd yn ddyledus pe na bai'r cwmnïau yng Nghymru yn gallu gwneud hynny. Ni chododd unrhyw broblemau yn ystod y broses o weithredu'r prosiect mewn perthynas â'r materion hyn.

1.24 Roedd y rhan fwyaf o'r cytundebau ariannu yn cynnwys cymalau a oedd yn galluogi'r awdurdod a oedd yn darparu'r arian i'w adennill o dan amgylchiadau penodol (Ffigur 5). Dengys yr hyn a ddigwyddodd wedyn fod nifer o wendidau yn y darpariaethau adennill hyn:

a Nid oedd gan y tir na'r seilwaith ar y safle (gwerth £41 miliwn i gyd) unrhyw ddarpariaethau adennill o gwbl.

**b** Nid oedd cytundeb y grant eiddo rhwng y WDA a'r cwmnïau LG yn darparu ar gyfer adennill arian grant (yn hytrach na'i atal) pe bai'r cynnydd tuag at gwblhau'r prosiect yn anfoddhaol. Yn sgîl hyn, roedd yn anos i'r WDA adennill arian gan y cwmni a drosfeddiannodd LGS yn 1999/2000, sef Hynix, pan fethodd â gwneud unrhyw gynnydd gyda'r prosiect: bu'n rhaid i'r WDA ddibynnu ar gymal llai penodol a oedd yn ei alluogi i adennill arian pe bai unrhyw 'dor-cytundeb sylweddol'. Gellid dehongli hyn mewn sawl ffordd a golygai fod sefyllfa gyfreithiol y WDA yn anos.

**c** Roedd yr un cytundeb grant yn darparu ar gyfer adennill grant pe bai cwmni yn methu â 'meddiannu a chynnal busnes' ar yr eiddo am gyfnod o fwy na chwe mis yn y deng mlynedd ar ôl cwblhau cam o'r prosiect. Yn 2003, roedd y brif ran o'r ffatri electroneg ar gau, gan arwain at golli tua phedair swydd o bob pump ar y safle, ond golygai'r ffaith bod y ffatri cydosod monitorau yn weithredol bod y sawl a oedd yn derbyn y grant yn parhau i feddiannu a chynnal busnes yno. Ataliodd hyn y WDA rhag mynd ati i adennill y grant a dalwyd i LGE ar gyfer Cam 1 o'r prosiect. Byddai darpariaeth benodol ar gyfer cau'n rhannol neu gwtogi wedi atgyfnerthu sefyllfa gyfreithiol y WDA yn fawr o ran adennill y grant a dalwyd. Roedd gan y cytundeb RSA, ar y llaw arall, gymalau eang eu cwmpas a oedd yn ei gwneud yn bosibl i atal neu adennill grant ar sail cynnydd anfoddhaol neu newid mawr yn natur, maint neu amseriad y prosiect.

**ch** Nid oedd y cytundeb RSA yn ddigon clir ynghylch pryd y byddai cyfnod yr amodau yn cychwyn, sef y cyfnod pan oedd yn ofynnol i gwmnïau gynnal asedau a swyddi ar y safle. Noda'r cytundebau fod cyfnod yr amodau - 18 mis ar gyfer asedau a thair blynedd ar gyfer swyddi - wedi dechrau ar ddyddiad y 'taliad terfynol o'r grant'. Pan geisiodd y Swyddfa Gymreig adennill arian yn 2003, honnodd LGE mai'r taliad diweddaraf o'r grant - ym mis Mehefin 1999 - oedd cychwyn cyfnod yr amodau, er nad oedd y prosiect wedi'i gwblhau. Gan fod mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers y taliad hwn, roedd pob rhyddid ganddo gau'r ffatri heb ad-dalu'r grant. Gwnaeth cyfreithwyr y Cynulliad ddadlau yn erbyn hyn, gan gyfeirio at gymalau eraill a oedd yn cyfiawnhau ei safbwynt, ac roeddent o'r farn bod yr achos yn un gwan. Eto i gyd, mae angen cysylltiad amlycach rhwng cyfnod yr amodau a'r broses o gwblhau'r prosiect fel y diffinnir mewn man arall yn y cytundeb safonol a ddefnyddiwyd fel sail i brosiectau LG.

**d** Dim ond yn y cytundeb RSA roedd cymal a oedd yn caniatáu adennill grant pe bai'r prosiect yn mynd y tu hwnt i'r terfynau cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, cymorth gwladwriaethol oedd yr holl gymorth i'r prosiectau, ac roedd angen darpariaeth benodol ar yr Awdurdodau yng Nghymru yn y cytundeb cyffredinol a fyddai'n eu galluogi i adennill cymorth gwladwriaethol ar unrhyw ffurf pe bai prosiect yn mynd y tu hwnt i derfynau'r Undeb Ewropeaidd yn barhaol.

**1.25** Er gwaethaf y gwendidau yn y cytundebau cyfreithiol, roeddent yn ddigonol yn y pen draw i adennill £71 miliwn mewn arian parod ac eiddo oddi wrth y cwmnïau. Fodd bynnag, gallai'r dasg fod wedi bod yn gyflymach ac yn haws pe bai darpariaethau adennill cliriach a mwy eang wedi eu cynnwys yn y cytundebau perthnasol. Roedd materion yn symlach oherwydd y gwahaniaeth clir rhwng yr hyn yr oedd cwmnïau wedi'i addo a'r hyn a ddarparwyd; byddai wedi bod mwy o brawf ar y darpariaethau adennill pe bai'r sefyllfa wedi



bod yn fwy annelwig, er enghraifft, pe na bai'r brif ran o'r datblygiad electroneg wedi cael ei chau.

**1.26** Yn gyffredinol, y cytundeb RSA oedd â'r darpariaethau cadarnaf: roeddent yn cwmpasu sefyllfaoedd mwy anffafriol ac yn rhoi llai o le i osgoi ad-dalu na'r rhai yng nghytundebau'r WDA. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol sicrhau mwy o integreiddio o ran y darpariaethau adennill, gyda diffiniadau cyffredin o gwblhau, buddsoddi a thelerau allweddol eraill, efallai drwy gytundeb grant unigol neu nifer lai o gytundebau. Fel mae'n digwydd, bu'n rhaid i'r WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddibynnu'n ormodol ar un neu ddau gymal mewn un cytundeb i adennill asedau cyhoeddus.

# Rhan 2 - Adenillodd yr Awdurdodau yng Nghymru y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a wariwyd ar y prosiectau, a sicrhaodd fargen dda er gwaethaf gwendidau yn eu sefyllfa fargeinio

**2.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio datblygiad y prosiectau ar ôl i'r cytundebau cyfreithiol gael eu llofnodi. Ystyriwn:

- y cymorth a roddwyd i'r cwmnïau a pha mor dda y cafodd hyn ei reoli;
- ymateb yr Awdurdodau yng Nghymru pan nad aeth y prosiectau yn eu blaen yn unol â'r disgwyl, a ph'un a gymerwyd camau rhesymol ar yr adeg gywir; ac
- y broses o adennill y cymorth a roddwyd i'r cwmnïau a thelerau'r cytundebau setlo gyda phob cwmni.

## Rheolwyd y gwaith o ddarparu'r pecyn cymorth yn dda, gan mwyaf, ond dylai'r Awdurdodau yng Nghymru fod wedi monitro sefyllfa'r cymorth gwladwriaethol yn fwy gofalus

**2.2** Rhannodd yr Awdurdodau yng Nghymru eu cyfrifoldebau am helpu i ddarparu'r pecyn cymorth ymysg ei gilydd fel y dangosir yn Ffigur 6. Y WDA a arweiniodd y sector cyhoeddus yn y gwaith o helpu i weithredu'r prosiectau ar lawr gwlad. Sefydlodd y WDA dîm prosiect penodedig yn ystod misoedd cyntaf y prosiect a rhoddodd gryn dipyn o gymorth ymarferol i'r buddsoddwyr. Roedd cwmnïau LG yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd, yn arbennig y broses gyflym o gaffael a pharatoi'r safle yn barod er mwyn i LG ddechrau adeiladu ar ddechrau 1997.

**2.3** Darparodd yr Awdurdodau yng Nghymru bob elfen o'r pecyn cymorth yn unol â'r cytundebau cyfreithiol gyda'r cwmnïau. Dangosodd gwaith archwilio ar y pryd fod pob taliad yn ddilys ac wedi'i wnaed ar ôl y broses graffu briodol. Gwnaeth yr Awdurdodau yng Nghymru fonitro'r cynnydd cyffredinol ar y prosiectau, ac ataliwyd y taliadau RSA i LGE gan y Swyddfa Gymreig pan ddaeth yn amlwg bod y cwmni yn annhebygol o wario'r swm arfaethedig ar sefydlu'r prosiect. Gwnaeth y WDA yr un peth gydag LGS ar ôl iddo atal ei brosiectau dros dro ym mis Medi 1998.

**2.4** Rheolwyd pob elfen o'r pecyn cymorth ar wahân gan yr Awdurdodau yng Nghymru, ond sefydlwyd tri gweithgor i gydgysylltu eu hymdrechion ar gamau cyntaf y datblygiad:

**a** grŵp llywio prosiect i oruchwylio hynt y prosiectau yn gyffredinol;

**b** grŵp monitro'r gwaith adeiladu, o dan arweiniad y WDA ond gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Gymreig, i oruchwylio hynt gwaith adeiladu'r ffatrïoedd ac ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi. Cyfarfu'r grŵp hwn bob mis yn ystod y cam adeiladu; ac

**c** y 'Friday Group', gyda chynrychiolwyr o sawl corff cyhoeddus yn Ne-Ddwyrain Cymru, i ystyried yr effaith ehangach ar drafnidiaeth, tai a chyflogaeth. Cyfarfu'r grŵp hwn nifer o weithiau ond nid esgorwyd ar fentrau sylweddol yn sgîl



**Ffigur 6: Roedd pedwar corff cyhoeddus yn bennaf cyfrifol am helpu cwmnïau LG i gyflawni eu prosiectau**

| Corff cyhoeddus | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| WDA | ■ Caffael safle llawn (yn cynnwys rhai pryniannau gorfodol) ac yn talu am dir LGS<br>■ Symud llinellau pŵer uwchben oddi wrth brif ran y safle<br>■ Darparu seilwaith penodol, gan gynnwys ffyrdd mynediad a chyfleustodau<br>■ Talu a monitro grantiau datblygu eiddo a chyfraniadau tuag at ddarparu seilwaith ar y safle gan LG<br>■ Goruchwylio hynt y gwaith adeiladu<br>■ Rhoi cyngor a chymorth proffesiynol gyda materion cynllunio, adeiladu, rheoli prosiect a sefydlu'r cwmnïau a'u staff o Korea yng Nghymru<br>■ Darparu canolfan hyfforddi lled-ddargludyddion i'w defnyddio gan LGS (ymysg eraill) a darparu canolfan hyfforddi i'w defnyddio gan staff LGE yn unig |
| Y Swyddfa Gymreig (a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl hynny) | ■ Sicrhau bod y pecyn cymorth wedi'i gydgysylltu'n effeithiol ac yn rhoi canllawiau polisi ac arweiniad gwleidyddol<br>■ Talu grantiau RSA a monitro hynt cyffredinol y prosiect<br>■ Ymdrin â materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol |
| Cyngor Hyfforddiant a Menter Gwent | ■ Cytuno ar gynllun hyfforddi gyda phob cwmni a'u helpu i weithredu'r cynlluniau<br>■ Rhoi cyngor ar y broses o recriwtio'r gweithlu a chynorthwyo gyda hynny<br>■ Talu grantiau hyfforddi i'r cwmnïau |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd | ■ Talu am y tir a werthwyd i LG am swm nominal<br>■ Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad |

*Ffynhonnell: WDA a'r Swyddfa Gymreig*

y cyfarfodydd hyn, a daeth i ben ddechrau 1998 pan gytunodd y grŵp y gellid gweithredu orau ar y materion mewn fforymau amgen.

**2.5** Penodwyd rheolwr prosiect hefyd gan y WDA i oruchwylio gwaith tîm y prosiect. Bu'r trefniadau hyn yn fodd i sicrhau bod y gweithgareddau cael eu cydlynu a'u cyflawni'n effeithiol. Daeth cyfarfodydd y gweithgorau i ben ar ôl i'r prif gam adeiladu gael ei gwblhau yn 1999. Ar ôl yr adeg hon, gwnaeth y WDA a'r Swyddfa Gymreig (a oedd yn bennaf cyfrifol) gyfathrebu ar sail ad hoc yn ôl yr angen.

**2.6** Yn gyffredinol, cafodd anghenion y prosiect eu diwallu'n eithaf da drwy hyn, ond dylid bod wedi sicrhau ffordd fwy cydgysylltiedig o gasglu'r wybodaeth a oedd yn angenrheidiol i fonitro cymorth gwladwriaethol o gofio'r cymhlethdodau a'r risgiau dan sylw. Er mwyn asesu'r sefyllfa'n briodol o ran cymorth gwladwriaethol, roedd angen i'r Swyddfa Gymreig a Llywodraeth Cynulliad Cymru wybod:

**a** swm ac amseriad y gwariant cyfalaf a chostau sefydlu eraill y prosiect (drwy gwmnïau LG yn bennaf, ond talwyd am y tir a rhywfaint o'r seilwaith yn uniongyrchol gan yr Awdurdodau yng Nghymru);

**b** faint o gymorth a roddwyd i'r cwmnïau a'i amseriad; ac

**c** arwydd o'r dwysedd cymorth net, drwy ailadrodd cyfrifiad cymorth y CE bob hyn yn hyn.

2.7 Yng nghyd-destun y grantiau a roddwyd i LG o amryw ffynonellau yn y sector cyhoeddus, ni wnaeth swyddogion yn y Swyddfa Gymreig na Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl hynny fonitro'n ddigonol y sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol. Nid oedd neb yn gwybod yn union faint a gâi ei wario yn gyffredinol, gan y cwmnïau neu'r Awdurdodau yng Nghymru. At hynny, cafwyd dryswch ynghylch yr hyn yr oedd angen ei gynnwys yn y cyfrifiad a sut roedd y Comisiwn ei hun wedi llunio'r ffigur dwysedd cymorth net. Roedd y Swyddfa Gymreig yn ymwybodol, ar y cyfan, bod gwariant yn llai na'r disgwyl, a bod mwy o gymorth fel cyfran wedi cael ei dalu na'r buddsoddiad cyfalaf yr oedd yn ei gymorthdalu. Fodd bynnag, nid ail-gyfrifwyd y cymorth gwladwriaethol i'r prosiect electroneg tan fis Mawrth 2000 pan ganfuwyd mai tua 28 y cant oedd y gyfran, sef llawer uwch na'r terfyn o 20 y cant.

2.8 Ym mis Ebrill 2000, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth LGE fod angen buddsoddiad mawr arall i gadw'r prosiect o fewn terfyn cymorth gwladwriaethol, ac na allent ganiatáu i'r cwmni gadw'r holl gymorth a roddwyd iddo pe na ddigwyddai hyn. Yn arbennig, roedd yn hanfodol egluro ac yna weithredu cynlluniau ar gyfer Cam 2 y prosiect. Ni dderbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'r llythyr hwn. Codwyd y mater o bryd i'w gilydd mewn cyfarfodydd gyda'r cwmni, ac fe'i pwysleisiwyd unwaith eto ym mis Mehefin 2001 pan gymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y broses o drosglwyddo asedau i gyd-fenter LG Philips, ond nid aed i'r afael o ddifrif â'r mater. Yn yr un modd, ni wnaeth neb fonitro'r sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol ar y prosiect lled-ddargludyddion, er bod y dwysedd cymorth net ar yr adeg yr ataliwyd y prosiect dros dro eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn o 20 y cant.

2.9 Mae angen agwedd gadarnach i sicrhau bod prosiectau sydd mewn perygl o fynd y tu hwnt i lefelau cymorth gwladwriaethol yn cael eu monitro a bod camau priodol yn cael eu cymryd i liniaru risgiau. Yn achos LG, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe cynhwysid y risgiau perthnasol mewn cofrestr risg fel rhan o gynllun prosiect cyffredinol, gydag atebolrwydd clir am reoli risg. Yn anffodus, nid oedd cynllun prosiect na chofrestr risg o'r fath a oedd yn cwmpasu pob math o gymorth ariannol a'r sefydliadau a oedd yn ei ddarparu. Yn amlwg, mae angen i gynllun prosiect o'r fath fod yn gymesur â chymhlethdodau a risgiau prosiect, ac roedd prosiect LG yn eithriadol ar y ddau gyfrif.

## Cymerodd yr Awdurdodau yng Nghymru gamau adennill ar yr adeg briodol

2.10 Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i ystyried adennill arian cyhoeddus gan unrhyw fuddsoddwr nad yw'n bodloni gofynion ei gytundeb ariannu. Os yw'r buddiannau arfaethedig yn llai o lawer na'r rhai y cytunwyd arnynt - er enghraifft, os oes oedi mawr, neu ddiffygion o ran buddsoddi neu swyddi - bydd fel arfer yn briodol adennill y cymorth a roddwyd yn llawn neu'n rhannol.

2.11 Mae penderfynu a ddylid adennill grant a faint y dylid ei adennill, yn aml yn benderfyniad syml os yw prosiect yn cau yn llwyr ac os torrwyd amodau grant yn amlwg. Fodd bynnag, yn achos prosiectau LG, roedd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch y tebygolrwydd y byddai'r prosiectau yn cael eu cwblhau a phwyso a mesur y camau gweithredu amgen y gellid eu cymryd.

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 16:01 Page 29



## Cafodd Hynix ddigon o gyfle i gwblhau ei prosiect cyn i WDA adennill ei gymorth ariannol

**2.12** Cwblhaodd LGS gragen y ffatri lled-ddargludyddion ym mis Medi 1998, ac yna cyhoeddodd y byddai datblygiad pellach ar y safle yn cael ei atal am flwyddyn, a hynny oherwydd cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tramor a osodwyd ar y cwmnïau mawr yn Korea gan lywodraeth De Korea fel un o amodau cymorth y Gronfa Ariannol Ryngwladol i'r wlad, yn sgîl yr argyfwng economaidd yn y Dwyrain Pell a phroblemau gyda'r economi yn Korea ar y pryd. Er hynny, roedd LGS wedi recriwtio ac wedi dechrau hyfforddi 114 aelodau o staff yn barod ar gyfer dechrau cynhyrchu ar ddechrau 1999. Erbyn hynny, roedd y prosiect wedi cael £44.3 miliwn o arian cyhoeddus, y daeth £37 miliwn ohono oddi wrth y WDA. Roedd y cwmni ei hun wedi buddsoddi £132 miliwn (heb gynnwys cyfalaf gwaith) yn y prosiect.

**2.13** Ym mis Gorffennaf 1999, caffaelwyd LGS gan Hyundai Electronic Industries Inc, fel rhan o ailstrwythuro corfforaethol a orchmynnwyd gan lywodraeth De Korea. Penderfynodd Hyundai beidio ag ailafael yn y prosiect yng Nghasnewydd tan fis Tachwedd 1999 pan fyddai wedi cwblhau ei gynllun busnes. Penderfynodd y WDA beidio â mynd ati i adennill yr arian bryd hynny, ond aros hyd nes y byddai'r sefyllfa eithriadol o anodd yn Ne Korea wedi sefydlogi. Sut bynnag, dim ond os oedd y cwmni wedi torri'r cytundeb drwy 'gynnydd afresymol' - term a gâi ei ddehongli'n eang (Paragraff 1.24 b) yr oedd telerau'r cytundeb grant am eiddo gyda'r cwmni (y darparwyd £25.4 miliwn o'r arian o dan y cytundeb hwnnw) yn caniatau i'r WDA adennill grant). Nid oedd gweddill yr arian wedi'i gwmpasu gan gymalau adennill penodol.

**2.14** Ar ddiwedd 1999, pan oedd nifer y gwerthiannau ar gyfer lled-ddargludyddion yn lleihau, penderfynodd Hyundai werthu'r ffatri anorffenedig i weithgynhyrchwr lled-ddargludyddion arall. Cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru i ohirio'r camau adennill tan fis Hydref 2000, er mwyn rhoi amser i farchnata'r ffatri a chwblhau trafodaethau gydag un cwmni a oedd â diddordeb mawr mewn prynu'r ffatri. Cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru hefyd i ymestyn yr amserlenni ariannu yn y cytundebau amrywiol i alluogi'r prynwr i fanteisio i'r eithaf ar y pecyn ariannu gwreiddiol. Fodd bynnag, penderfynodd y buddsoddwr beidio â phrynu'r ffatri; roedd Hyundai mewn trafferthion ariannol mawr, a gyfyngai ar ei allu i fuddsoddi dramor; a golygai adnoddau dros ben fod y galw am gyfleusterau newydd yn fach.

**2.15** O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynodd y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddechrau cymryd camau adennill gan ei bod yn annhebygol y gallai Hyundai gwblhau'r ffatri o fewn amserlen resymol, ac ar y llaw arall roedd y cynnydd o hyd yn y farchnad yn argoeli y byddai'n haws dod o hyd i brynwr arall i gaffael y ffatri. Awgrymodd cyngor cyfreithiol y WDA fod gan y WDA achos da i ddwyn achos llys yn erbyn Hyundai am dorri'r contract.

**2.16** Cyfarfu'r WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru ag uwch reolwyr o Hyundai yn Seoul ym mis Tachwedd 2000, a gofynnwyd i'r cwmni drosglwyddo perchenogaeth o'r safle i'r WDA, yn amodol ar brofion diwydrwydd dyladwy a chytundeb i ddychwelyd unrhyw warged yn sgîl gwaredu'r safle i'r cwmni. Fel arall, gallai'r cwmni roi swm sylweddol ar adnau nes bod prosiect wedi'i gwblhau. Gwrthododd y cwmni y ddau gynnig, gan ddweud nad oedd yn gyfreithiol rwymedig i ddilyn y naill gam gweithredu na'r llall.

**2.17** Penderfynodd y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru dderbyn cynnig y cwmni o arwystl cyfreithiol dros asedau ar y safle. Câi'r arwystl ei orfodi pe na fyddai'r cwmni'n gweithredu'n unol ag amserlen benodol ar gyfer cwblhau'r prosiect. Roedd swyddogion o'r farn y byddai'r arwystl cyfreithiol yn:

- **a** Rhoi cymhelliant cryf i Hyundai gwblhau'r prosiect. Roedd swyddogion o'r farn bod rhagolygon y cwmni yn gwella ac y byddai angen cyfleuster Ewropeaidd arno rywbryd - dywedodd y cwmni y byddai hyn yn digwydd yn 2003.
- **b** Osgoi achos llys i adennill grant y byddai angen ei ddwyn yn Korea, achos a fyddai'n hirfaith ac yn anodd gyda chanlyniad ansicr iawn. Roedd swyddogion o'r farn y byddai achos llys yn rhoi terfyn ar ddeialog adeiladol â'r cwmni ac yn gadael y safle'n wag, heb unrhyw enillion am y buddsoddiad cyhoeddus, am gyfnod estynedig.

**2.18** Ar ôl trafodaethau maith, lluniodd y WDA gytundeb cyfreithiol â Hynix ym mis Awst 2001[5] a'i gwnaeth yn ofynnol i'r cwmni gyhoeddi ei fwriadau erbyn 31 Rhagfyr 2002, dechrau gweithio ar y safle erbyn canol 2004 a chwblhau'r prosiect erbyn 31 Rhagfyr 2005. Pe na chyflawnid y cerrig milltir hyn, gallai'r WDA orfodi'r arwystl cyfreithiol a gwerthu'r asedau i adennill hyd at £36.65 miliwn o'i arian. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm gwerth y tir, y grant eiddo a'r seilwaith ar y safle a ddarparwyd ar gyfer y prosiect. Ni chynhwyswyd cost y seilwaith oddi ar y safle (£6.4 miliwn) a'r grant hyfforddi (£0.7 miliwn) gan nad oedd darpariaethau cyfreithiol yn bodoli i adennill yr arian, ar sail y ffaith y byddai buddiannau'r gwariant hwn ar gael i gyflogwyr eraill a defnyddwyr y safle yn y dyfodol. Roedd hefyd yn ofynnol, o dan y cytundeb, i Hynix dalu'r WDA am unrhyw ddiffyg yng ngwerthiannau'r asedau.

**2.19** Yn gyfnewid am hyn, cytunodd y WDA i gadarnhau, ar dan yr holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol, y byddai'r pecyn ariannu yn parhau fel yr oedd ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, ni allai'r WDA fodloni'r amod hwn erbyn y terfyn amser yn y cytundeb am i'w fargyfreithiwr ei gynghori i hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyntaf (gweler Blwch C). Ni hysbyswyd y Comisiwn tan fis Mehefin 2002, ac yn dilyn hynny nododd y byddai'n trin unrhyw achos o ailddechrau'r prosiect fel prosiect newydd, yn ddarostyngedig i derfynau cymorth gwladwriaethol is ac asesiad o'r newydd o'i effaith ar y marchnadoedd. Byddai hyn wedi gohirio ailddechrau'r prosiect ac wedi peri risg na fyddai'n cael cymeradwyaeth. Gallai hynny yn ei dro fod wedi galluogi Hynix i ddwyn achos yn erbyn y WDA am dorri'r arwystl cyfreithiol.

**2.20** Ni chyhoeddodd Hynix ei fod am ailddechrau'r prosiect erbyn 31 Rhagfyr 2002, a chyflwynodd y WDA hysbysiad fod amodau cytundeb 2001 wedi'u torri. Fodd bynnag, roedd y methiant i roi cadarnhad diamod y byddai'r pecyn cymorth yn parhau i fod ar gael yn gwanhau ei sefyllfa i gyd-drafod i ryw raddau. Fodd bynnag, derbyniodd Hynix ei fod wedi torri amodau'r cytundeb a chadarnhaodd na fyddai'n bwrw ymlaen gyda'r prosiect. Cytunodd y cwmni ym mis Mai 2003 i drosglwyddo'r tir (gwerth £6.65 miliwn) i'r WDA, ac i sefydlu cyd-fenter gyda'r WDA i waredu'r safle. Câi'r elw ei ddefnyddio i gyflawni'r rhwymedigaethau o dan yr arwystl cyfreithiol, yn ogystal â llog ar y rhwymedigaethau grant gwerth £30 miliwn a oedd yn parhau heb eu talu. Byddai'r gydfenter yn para tan 30 Mehefin 2004, pan fyddai'r WDA yn gallu adennill unrhyw ddiffyg

5 Caffaelodd Hynix Semiconductor Inc fusnes lled-ddargludyddion Hyundai Electronic Industries ym mis Ebrill 2001 ar ôl iddo adael prif grŵp Hyundai.



## Blwch C - ni allai'r WDA gyflawni ei rwymedigaeth i sicrhau bod y pecyn ariannu ar gael

O dan yr arwystl cyfreithiol roedd yn rhaid i'r WDA gadarnhau erbyn 31 Rhagfyr 2001 y byddai'r pecyn ariannu yn parhau i fod ar gael o dan yr amselen diwygiedig, gan gynnwys y grantiau a weinyddwyd gan gyrff cyhoeddus eraill. Gofynnodd y WDA i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau eu bod yn fodlon ar brif delerau arfaethedig yr arwystl cyfreithiol ond nid oedd wedi cael ymateb ffurfiol erbyn i'r arwystl cyfreithiol gael ei llofnodi ar 9 Awst 2001. Pan ofynnodd y WDA i Lywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau bod y grant RSA a grantiau hyfforddi ar gael, gwrthododd swyddogion wneud hynny, heb geisio cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer yr estyniad i amserlen y prosiect.

Cododd y broblem hon oherwydd pall yn y cyfathrebiad rhwng y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael cyngor cyfreithiol rhagarweiniol y dylent hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd am yr estyniad i amserlen y prosiect, ond yn eu barn hwy, roedd y Comisiwn yn annhebygol o ystyried y newidiadau yn rhai sylweddol. Er bod y WDA wedi cael cyngor cyfreithiol allanol pan oedd yn cyd-drafod yr arwystl cyfreithiol, dim ond ar ôl i'r arwystl cyfreithiol gael ei lofnodi y ceisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyngor penodol ar y mater hwn. Yna cynghorydd y bargyfreithiwr fod yr oedi o sawl blwyddyn cyn y disgwylid cwblhau'r prosiect yn 'newid i'r cymorth' mewn gwirionedd, y byddai angen hysbysu'r Comisiwn ohono, ac y byddai'n anghyfreithlon addo i Hynix y byddai'r pecyn ariannu yn aros yn ddigyfnewid oni bai bod y Comisiwn wedi cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig. Cafwyd y cyngor hwn ar ôl y terfyn amser o 31 Rhagfyr, felly nid oedd y WDA yn gallu cyflawni ei rwymedigaeth i warantu y byddai'r arian yn parhau i fod ar gael.

Fel mae'n digwydd, ni chymeradwywyd yr estyniad i amserlen y prosiect gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond roedd yr Awdurdodau yng Nghymru yn gallu adennill arian gan y cwmni yr un fath. Eto i gyd, roedd yr Awdurdodau yng Nghymru wedi gwneud eu sefyllfa yn wannach drwy wneud ymrwymiad cyfreithiol na allent ei gyflawni; dylai cadarnhad y byddai arian yn parhau i fod ar gael fod wedi bod yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Gellid bod wedi osgoi'r broblem hon drwy gyfathrebu gwell rhwng y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru: roedd angen i'r ddau sefydliad wybod dyddiad cwblhau arfaethedig yr arwystl cyfreithiol, a rhannu eu cyngor cyfreithiol cyn i'r arwystl cyfreithiol gael ei lunio'n derfynol.

yn uniongyrchol gan Hynix pe na werthid y safle neu pes gwerthid am lai na gwerth y rhwymedigaethau.

2.21 Y WDA a arweiniodd y gwaith o farchnata'r safle, ond roedd y ffatri wedi dod yn anaddas ar gyfer technegau cyfoes ar gyfer gwneud lled-ddargludyddion ac roedd yn debygol y byddai angen defnydd gwerth is. Ym mis Chwefror 2004, cytunodd Hynix mewn egwyddor i drosglwyddo'r eiddo cyfan i'r WDA er mwyn iddo gyflawni ei rwymedigaethau. Daeth y WDA yn agos iawn i werthu'r adeilad i'w ddefnyddio fel warws, ond aeth hyn i'r gwellt a byddai'r elw yn sgîl ei werthu wedi bod yn llawer llai na'r £30 miliwn a oedd ei angen i gyflawni rhwymedigaethau'r grant. Trosglwyddodd y cytundeb terfynol ym mis Mai 2004 yr eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 21 Mawrth 2005, gyda thaliad arian parod ychwanegol ar 1 Ionawr 2005 i gyflawni'r rhwymedigaeth a oedd yn weddill (paragraff 2.29).

### Rhoddodd yr Awdurdodau yng Nghymru gymorth i LG Electronics i ymdrin â sefyllfa fasnachu anodd, a dim ond pan gyhoeddwyd yn 2003 bod y rhan fwyaf o'r datblygiad yn mynd i gau y dechreuwyd cymryd camau adennill

2.22 Bwriedid cwblhau Cam 1 o'r prosiect electroneg erbyn 1999, ond ni chyflawnwyd y targed a ragwelwyd o ran cyflogaeth sef 2,412 o swyddi ar gyfer y rhan hon o'r prosiect; y nifer fwyaf oedd 2,200 yn 2000. Daeth yn gynyddol amlwg nad oedd gan LGE unrhyw fwriad i ddechrau Cam 2 o fewn amserlen gymeradwy'r prosiect, ac nid oedd yn debygol ychwaith o gyflawni'r targed swyddi na'r buddsoddiad disgwyliedig. Dechreuodd y nifer a gyflogodd yn y ffatri leihau wrth i'r galw cynyddol am fonitorau sgriniau gwastad olygu bod tiwbiau arddangos lliw ym monitorau cyfrifiaduron yn colli eu cyfran ar y farchnad.

**2.23** Ym mis Gorffennaf 2001, cwblhaodd LGE gytundeb cyd-fenter gyda'r cwmni electroneg amlwladol, Philips, iddo ddod yn fwy cystadleuol o ran CRT. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gobeithio y byddai'r gydfenter yn sicrhau buddsoddiad pellach yng Nghasnewydd ac yn sicrhau bod y ffatri yn parhau yn gyfleuster cynhyrchiol iawn ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion sy'n ddatblygedig yn dechnolegol.

**2.24** Gwrthododd Philips dderbyn y ffatri yng Nghasnewydd fel rhan o'r gydfenter oni fyddai buddsoddiad gan y gydfenter yn y dyfodol yn gymwys i gael taliadau grant, tra'n gadael rhwymedigaethau presennol y grant gydag LGE. Cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru i hyn, ar yr amod y byddai unrhyw dir nas datblygwyd ar ddiwedd 2005 yn cael ei ddychwelyd i'r awdurdodau am ddim, a bod y gydfenter yn cadw o leiaf 800 o swyddi ar y safle tan 30 Mehefin 2003. Gwnaeth LG Philips Displays ddechrau diswyddo ar raddfa fawr ym mis Awst 2003 pan nad oedd bygythiad mwyach bod yn rhaid iddo ad-dalu grantiau.

**2.25** Ceisiodd swyddogion y Cynulliad sicrwydd y cynhelid Cam 2 a bod LGE yn deall ac yn derbyn y fframwaith cymorth gwladwriaethol a oedd yn gymwys i'r pecyn ariannu. Fodd bynnag, gwrthododd y cwmni roi sicrwydd: y byddai angen i'r gydfenter asesu datblygiadau yn y farchnad CRT cyn ymrwymo i fuddsoddi ymhellach, ac roedd LGE yn awyddus i gadw ei safbwynt yn ôl ar y mater yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol. Dyma pryd y daeth cymorth gwladwriaethol i'r golwg fel achos posibl o anghydfod gyda'r cwmni. Penderfynodd yr Awdurdodau yng Nghymru beidio â chodi'r materion hyn eto gan eu bod am weld y ffatri yng Nghasnewydd yn cael ei chynnwys yn y gydfenter, a llofnodwyd cytundeb cyfreithiol ym mis Medi 2001. Trosglwyddodd y cytundeb hwn y rhan fwyaf o'r asedau cynhyrchu (tua £167 miliwn) a swyddi (tua 1,400) i LG Philips Displays, gan adael tua £23 miliwn o asedau a 363 o swyddi gydag LG Electronics Wales Ltd.

**2.26** Parhau i ddirywio a wnaeth y farchnad mewn CRT, gan arwain at golledion masnachu mawr i LG Philips yng Nghasnewydd. Lleihaodd nifer y swyddi ar y safle o 1,400 ym mis Medi 2001 i tua 900 erbyn diwedd 2002. Ar ddechrau 2003, hysbysodd LG Philips Displays yr Awdurdodau yng Nghymru ei fod yn ystyried o ddifrif gau'r ffatri yng Nghasnewydd yn 2003, gan ddileu'r holl swyddi. Rhybuddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru LGE (a gadwodd y rhwymedigaeth i ad-dalu'r grant) y byddai'n ceisio adennill yr holl arian a roddwyd i'r cwmni. Dechreuodd trafodaethau adennill ym mis Mawrth 2003, yn fuan cyn i LG Philips Displays gyhoeddi bod y ffatri CRT yng Nghasnewydd yn cau.

**2.27** Ni ddechreuodd yr Awdurdodau yng Nghymru gymryd camau adennill hyd nes iddi ddod yn amlwg y byddai'r rhan fwyaf o'r datblygiad yn cau ac y câi'r rhan fwyaf o'r swyddi eu colli. Roeddent am roi cyfle i'r gydfenter adfywio'r busnes a chwblhau'r prosiect cyfan fel yr addawyd. Roedd yn annhebygol y byddai'r cwmni wedi cynyddu cyflogaeth neu wedi dechrau buddsoddiad newydd mawr pe bai'r Awdurdodau yng Nghymru wedi bygwth cymryd camau adennill yn gynt.

**2.28** Fodd bynnag, byddai'r Awdurdodau yng Nghymru wedi gorfod cymryd camau adennill rywbryd neu'i gilydd os nad oedd y prosiect yn sicrhau'r swyddi a'r buddsoddiad cyfalaf a ddisgwyliwyd. Roedd y ffaith nad oedd cerrig milltir penodol i ddiffinio 'cynnydd boddhaol' yn rhwystro'r broses o fonitro'n effeithiol ac yn peri'r risg o ddiffyg gweithredu. Trafododd yr Awdurdodau yng Nghymru y cynnydd yn gyffredinol ond ni ofynnwyd i'r cwmni wneud ymrwymiad cadarn i gwblhau Cam 1 na dechrau ar Gam 2. Arweiniodd y broses o greu'r gydfenter a chau'r ffatri CRT at

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 16:01 Page 33



drafodaethau pwysig ynghylch hynt y prosiect a'r gwaith o adennill grant. Roedd yr angen i gymryd camau cadarn i sicrhau buddsoddiad pellach, neu i adennill grant, yn arbennig o bwysig gan fod y prosiect wedi mynd y tu hwnt i derfynau cymorth gwladwriaethol.

## Cafodd yr Awdurdodau yng Nghymru setliadau da gan Hynix ac LG Electronics o dan amgylchiadau anodd

### Adenillodd yr Awdurdodau yng Nghymru fwy nag 80 y cant o gyfanswm y cymorth a roddwyd i LGS/Hynix

**Ffigur 7: Cymorth a gynlluniwyd, a dalwyd ac a adenillwyd**

| | Arfaethedig £ miliwn | Talwyd mewn gwirionedd £ miliwn | Adenillwyd £ miliwn |
|---|---|---|---|
| LGE | 129.4 | 87.1 | 34.00 |
| LGS/Hynix | 117.8 | 44.3 | 36.65 |
| **Cyfanswm** | **247.2** | **131.4** | **70.65** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffeiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru*

2.29 Roedd i'r setliad terfynol gyda Hynix dair elfen:

a trosglwyddo'r tir nas datblygwyd ym mis Mai 2003 i'r WDA, gwerth £6.65 miliwn yn ôl y prisiad - yr un fath â'r hyn a gafwyd yn y pecyn cymorth gwreiddiol;

b trosglwyddo'r adeilad ym mis Mawrth 2005 i'r WDA, gwerth £17 miliwn; a

c thalu swm arian parod o £13 miliwn i'r WDA ym mis Ionawr 2005.

Gwerth y setliad felly yw £36.65 miliwn, sy'n gyfwerth â'r swm a sicrhawyd gan yr arwystl cyfreithiol a'r swm a oedd yn adenilladwy, yn ôl y WDA, o dan y cytundebau cyfreithiol amrywiol. Mewn termau nominal, adenillodd y WDA yr holl gymorth yr oedd ganddo'r awdurdod cyfreithiol i'w adennill, sef mwy nag 80 y cant o gyfanswm y cymorth a roddwyd i'r cwmni.

2.30 Mae gwerth gwirioneddol yr eiddo a drosglwyddwyd i'r WDA yn ansicr iawn oherwydd natur arbenigol yr adeilad. Cyd-drafododd y WDA brisiad o £17 miliwn fel cyfaddawd; nid yw'r ffigur hwn wedi'i benodi mewn unrhyw brisiad, ond mae'n perthyn i amrediad eang o werthoedd ar gyfer defnyddiau diwydiannol gwerth is sy'n deillio o brisiadau a gomisiynwyd gan y WDA a Hynix. Amrywiodd y gwerthoedd hyn o £10 miliwn i £21 miliwn, ac maent yn llai o lawer na gwerth yr eiddo at ei ddiben gwreiddiol - sef amcangyfrif o £67 miliwn i £100 miliwn yn 2001.

2.31 Aeth yr Awdurdodau yng Nghymru i gostau hefyd, o ganlyniad i'r ffaith nad aeth y prosiect rhagddo:

a Y gost o farchnata'r safle, a'i addasu ar gyfer defnyddiau amgen ac yn arbennig, cost anhysbys mentrau a ariennir yn gyhoeddus i ddenu deiliaid yn y dyfodol (sy'n debygol o fod yn sylweddol o gofio'r gost fawr i brynwr i addasu'r adeilad at ei ddefnydd ei hun).

b Cost cynnal a chadw'r safle ers i'r WDA ei gaffael yn amcangyfrifiedig ar £1 filiwn hyd at 31 Mawrth 2007, gyda chost gylchol o tua £630,000 y flwyddyn wedi hynny.

c Llog ar yr arian a dderbyniwyd. Cytunodd y WDA i beidio â hawlio llog dyledus ar y rhwymedigaeth sy'n weddill, sef £30 miliwn, yr oedd ganddo'r hawl iddi o

dan gytundeb mis Mai 2003. Pe codid llog ar y rhwymedigaethau o'r dyddiad y dylai'r prosiect fod wedi dod i ben, ym mis Rhagfyr 2001, byddai sawl miliwn o bunnoedd wedi bod yn ddyledus.

**ch** Chost cyngor cyfreithiol a chostau cysylltiedig trafodaethau â'r cwmni.

**2.32** Er hyn, credwn i'r Awdurdodau yng Nghymru sicrhau cytundeb da gan y cwmni o dan amgylchiadau anodd:

**a** Cyd-drafododd y WDA brisiad o'r adeilad a oedd o fewn amrediad prisiadau ar gyfer defnyddiau realistig gwerth is o'r eiddo. Cafodd hefyd daliad arian parod o £13 miliwn oddi wrth gwmni a oedd mewn trafferthion ariannol mawr ac nad oedd ganddo unrhyw asedau sylweddol eraill yn y DU.

**b** Llwyddodd yr Awdurdodau yng Nghymru i osgoi dwyn achos llys hefyd a fyddai wedi bod yn hirfaith ac yn gostus, gyda chanlyniad ansicr - yn arbennig pe bai wedi digwydd yn Korea.

**c** Gadawyd y gost o gynnal a chadw'r eiddo gyda Hynix am gyhyd â phosibl.

**ch** Llwyddodd y WDA i adennill ei arian er gwaethaf y darpariaethau adennill gwan yn y cytundebau cyfreithiol, ac o sefyllfa wan a grëwyd gan ei anallu i gadarnhau y byddai'r pecyn ariannu yn parhau i fod ar gael pe bai'r prosiect yn parhau.

**d** Gwariodd yr Awdurdodau yng Nghymru swm net o £8 miliwn[6] ar y prosiect (heb gynnwys y costau anhysbys a restrir ym Mharagraff 2.31), ond bydd i'r gwariant hwn rywfaint o fudd cyhoeddus drwy hyfforddi'r gweithlu a chreu seilwaith sydd ar gael i ddefnyddwyr eraill y safle. Mae'n swm cymharol fach yng nghyd-destun colled ariannol i Hynix o fwy na £100 miliwn.

**dd** Mae'r cytundeb yn gadael prif safle i'w ddatblygu yn y dyfodol. Gan weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Newport Unlimited (Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu creu Parc Busnes strategol, a fydd yn gallu denu prosiectau sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, yn cynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, cwmnïau TGCh a meddalwedd, ynghyd ag adleoli swyddi o'r sector cyhoeddus.

### Cyd-drafododd Awdurdodau yng Nghymru yn frwd a chynyddodd y swm a gynigiwyd gan LG Electronics, er gwaethaf yr anawsterau cyfreithiol

**2.33** Ym mis Mawrth 2004, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac LGE ar setliad gwerth £34 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys:

**a** taliad arian parod o £15 miliwn;

**b** dychwelyd y tir nas datblygwyd a'r adeiladau segur ar y safle, gwerth £20 miliwn; a

**c** chytundeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu'r amcangyfrifiedig £1 filiwn o gost i wahanu gwasanaethau cyfleustodau a rannwyd yn flaenorol rhwng LGE ac LG Philips Displays.

**2.34** Roedd y cytundeb yn ffrwyth 12 mis o gyd-drafodaethau anodd. Llywodraeth Cynulliad Cymru a arweiniodd y cyd-drafodaethau, a gweithiodd yn agos gyda'r WDA i sicrhau setliad. Dilynwyd strategaeth gyd-drafod uchelgeisiol, gan fynnu, i gychwyn, bod LGE yn ad-dalu'r holl £87 miliwn o

6 Heb gynnwys y £1.7 miliwn a wariwyd gan y WDA ar Ganolfan Hyfforddi Lled-ddargludyddion Cymru yn Imperial Park, a ddefnyddiwyd yn bennaf gan LGS ond gan eraill hefyd.



gymorth ariannol a dderbyniodd tuag at gost ei brosiect. Ni ellid cadw at hyn am hir, gan nad oedd gan yr Awdurdodau yng Nghymru unrhyw hawl gytundebol i adennill cyfran helaeth o'r cymorth. Ymatebodd LGE gyda chynnig o £25 miliwn. Ar ôl asesu ei sefyllfa gyfreithiol a buddiannau tebygol y prosiect, ceisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru setliad o £43.5 miliwn; roedd o'r farn bod hon yn darged anodd ond realistig. Cytunodd y partïon ar £34 miliwn yn ystod y cyd-drafodaethau terfynol ym mis Hydref 2003. Bu sawl peth yn dylanwadu ar y cyd-drafodaethau, fel y nodir isod.

2.35 **Cyfyngwyd yr Awdurdodau yng Nghymru gan delerau'r contractau y darparwyd y cymorth oddi tanynt.** Hysbysodd y bargyfreithiwr y swyddogion o'r canlynol:

a Nid oedd gan yr Awdurdodau yng Nghymru unrhyw achos bryd hynny i adennill gwerth y tir nas datblygwyd, nac i adennill cost y gwaith ar y safle na'r grant hyfforddi o gwbl, sef cyfanswm o tua £30 miliwn.

b Gwan oedd yr achos i adennill y grant datblygu eiddo gwerth £22 miliwn, gan nad oedd y cytundeb grant yn darparu'n glir ar gyfer adennill pe rhoddid y gorau i ran o'r prosiect yn hytrach na'r prosiect cyfan (Paragraff 1.24).

c Roedd achos cryf dros adennill y £34.6 miliwn o RSA, ar sail cynnydd annigonol tuag at gwblhau'r prosiect. Hefyd, byddai'r tir nas datblygwyd yn dychwelyd i eiddo Cynulliad Cymru ar ddiwedd 2005 pe bai'n parhau heb ei ddatblygu.

2.36 **Roedd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru rwymedigaeth gyfreithiol i adennill y gordaliad o gymorth gwladwriaethol, ynghyd â llog.** Roedd yn amlwg bod gordaliad mawr wedi'i wneud gan fod y cymorth a roddwyd wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn o 20 y cant a oedd yn gymwys i'r prosiect ac nid oedd dim posibilrwydd mwyach y câi'r prosiect ei gwblhau. O dan gyfraith Ewrop, roedd gan yr Awdurdodau yng Nghymru ddyletswydd i adennill y cymorth hwn gan y derbynnydd ynghyd â llog o'r dyddiad y digwyddodd y gordaliad - hyd yn oed os na ddarparwyd ar gyfer hyn yn y cytundebau cyfreithiol sy'n rheoli'r pecyn cymorth. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cynulliad Cymru mai £37.7 miliwn, yn cynnwys llog, oedd y gordaliad. Diwygiwyd hyn yn ddiweddarach i £31.5 miliwn, yn cynnwys llog o £2.6 miliwn, ar ôl datrys ansicrwydd ynghylch llog a chostau sefydlu (Blwch Ch).

### Blwch Ch - ansicrwydd ynghylch y rheoliadau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol

**Costau sefydlu:** Ceisiodd cynghorwyr proffesiynol LGE gynnwys costau sefydlu amrywiol nas ystyriwyd yn flaenorol fel rhan o'r buddsoddiad yn y cyfrifiad o gymorth gwladwriaethol. Derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru rai o'r rhain (er enghraifft, costau cyn cynhyrchu a breindaliadau) ond gwrthododd eraill megis cyflogau hyfforddeion a chostau cyllid adeiladu. Ni roddwyd canllawiau i swyddogion gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch yr hyn y gellid neu na ellid ei gynnwys yn y gost fuddsoddi at ddibenion cymorth gwladwriaethol. O ganlyniad cynyddodd cost y buddsoddiad i £233 miliwn (£225 miliwn heb gynnwys y grant hyfforddi), a lleihau'r gordaliad o gymorth gwladwriaethol o £31.5 miliwn i £28.9 miliwn.

**Llog:** Amrywiodd yr opsiynau o £2.6 miliwn i £9.7 miliwn, yn dibynnu ar bryd y tybiwyd bod y gordaliad wedi digwydd a ph'un a gyfrifwyd llog ar sail syml neu gyfansawdd. Ar ôl llawer o drafod, cytunodd yr Awdurdodau yng Nghymru y dylid codi llog syml ar y gordaliad o ddiwedd cyfnod y prosiect - £2.6 miliwn. Ni dderbyniwyd y dehongliad hwn yn ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd, er iddo gytuno bod setliad o £34 miliwn - nid oedd yn y ffigur uchaf o ran llog - yn ateb boddhaol i'r gordaliad o gymorth gwladwriaethol.

2.37 Ar sail cyngor cyfreithiol, ceisiodd yr Awdurdodau yng Nghymru adennill yr holl ordaliad o gymorth gwladwriaethol (wedi'i wasgaru ar draws pob math o gymorth) a gweddill yr RSA - cyfanswm o £59.5 miliwn i gyd.

2.38 **Roedd cynnig y setliad yn cynnwys consesiynau ar gyfer buddiannau parhaus y prosiect.** Roedd LGE yn disgwyl ehangu ei weithrediad cydosod monitorau yng Nghasnewydd, gan newid i gynhyrchu monitorau sgriniau gwastad. Byddai hyn yn cynyddu cyflogaeth o tua 350 i 750 o swyddi llawn amser ac yn helpu i sicrhau dyfodol y ffatri, gan y byddai'n gwasanaethu marchnad a oedd yn tyfu. Er mwyn adlewyrchu'r budd parhaus hwn i'r economi, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru leihau ei ofynion yn ôl swm cymesur o'r £41 miliwn o'r RSA a oedd yn daladwy ar gyfer Cam 1.

2.39 Cytunodd swyddogion hefyd y dylid rhoi rhywfaint o ystyriaeth am y swyddi a grëwyd yn ystod oes y prosiect, ond penderfynodd y byddai hyn yn llai o lawer na'r swm cymesur o'r RSA a oedd yn gysylltiedig â'r swyddi. Roedd y prosiect wedi creu tua thri chwarter yr holl swyddi (o ran blynyddoedd cyflogeion llawn amser) a ddisgwyliwyd yn ystod y pum mlynedd hyd at ddiwedd 2001. Fodd bynnag, telir RSA am swyddi parhaol, ac os collir swyddi, mae angen gwariant cyhoeddus pellach yn aml i gael rhai newydd yn eu lle. (Yn wir, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnig grant RSA newydd i ddenu deiliad newydd i'r safle gwag - Paragraff 2.48.) Roedd yn briodol felly i Lywodraeth Cynulliad Cymru beidio â rhoi budd cymesur am y swyddi hynny a grëwyd yn ystod y prosiect ond a gollwyd wedi hynny. Yn gyffredinol, lleihaodd yr Awdurdodau yng Nghymru y swm a geisiwyd ganddynt o £16 miliwn er mwyn adlewyrchu cyflogaeth ar y safle yn y gorffennol ac yn y dyfodol, gan ostwng targed y setliad i £43.5 miliwn.

2.40 **Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y gallai adennill arian drwy'r llysoedd, ond bod gwendidau yn ei hachos a fyddai'n gwneud yr achos llys yn anos.** Ceisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyngor bargyfreithiwr blaenllaw ar sawl achlysur yn ystod y cyd-drafodaethau. Daeth i'r casgliad bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru achos cryf dros adennill y gordaliad o gymorth gwladwriaethol drwy'r llysoedd pe na ellid cytuno ar setliad a gyd-drafodwyd, ond roedd yn pryderu ynghylch agweddau ar y ffordd yr hysbysodd y Comisiwn Ewropeaidd o'r prosiect yn wreiddiol. Ymhlith y prif bryderon roedd y ffaith na ellid cadarnhau cost y buddsoddiad yn hawdd, sef £521 miliwn ac nad oedd y Comisiwn Ewropeaidd yn ymwybodol nad oedd LGE yn ymrwymedig i Gam 2 drwy gontract - er bod y Swyddfa Gymreig wedi sicrhau'r cwmni ar y pryd ei bod wedi hysbysu'r Comisiwn o'r holl agweddau perthnasol ar delerau ac amodau'r pecyn cymorth.

2.41 Dadleuodd LGE yn ystod y cyd-drafodaethau nad oedd yn fodlon ar y ffordd yr oedd y Swyddfa Gymreig wedi ymdrin â'r hysbysiad, a'i fod o'r farn bod swyddogion wedi celu gwybodaeth bwysig rhag y cwmni. Y pryder oedd y gallai LGE ystyried cymryd camau cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel olynydd y Swyddfa Gymreig, am gamliwio ar y sail na fyddai wedi parhau â'r buddsoddiad pe bai wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfa wirioneddol o ran cymorth gwladwriaethol. Ar sail cyngor cyfreithiol, roedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod cryn risg o wrth-hawliad o'r fath pe bai'r achos yn mynd ger bron llys, ond y byddai LGE yn ei chael hi'n anodd dangos ei fod wedi profi colled ariannol oherwydd



diffygion o'r fath - felly roedd y risg ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd gwrth-hawliad yn gymharol fach.

**2.42** Sut y bu hi, nid oedd angen mynd â'r achos ger bron llys gan fod LGE wedi cytuno ar setliad a oedd yn rhagori ar y gordaliad cymorth gwladwriaethol o £31.5 miliwn. Fodd bynnag, roedd yn llai na'r £34.6 miliwn o RSA a dalwyd ar gyfer y prosiect, sef y swm mwyaf yr oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru achos cryf i'w adennill o dan delerau'r cytundebau ariannu amrywiol. Dywedodd y bargyfreithiwr ei fod yn ddarbodus ac yn rhesymol derbyn cynnig LG: roedd y gordaliad o gymorth gwladwriaethol £6 miliwn yn llai nag a dybiwyd yn wreiddiol ac o'r herwydd lleihau a wnaeth y swm yr oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru achos cryf i'w adennill. Nid oedd y swm cymharol fach o arian ychwanegol y gellid ei adennill yn cyfiawnhau cost a risg achos llys. Cefnogwyd y farn hon gan Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Ysgrifennydd Parhaol. Yn ogystal, cadarnhaodd y Comisiwn Ewropeaidd fod y sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol wedi'i datrys yn foddhaol.

**2.43** Ni lofnodwyd y cytundeb setliad terfynol tan fis Mawrth 2004, yn hwyrach na'r bwriad, yn bennaf o ganlyniad i anghydfod ynghylch y gost o wahanu'r cyfleustodau a rennid rhwng LGE ac LG Philips. Roedd y naill barti o'r farn bod y llall wedi cytuno i dalu'r gost. Er mwyn sicrhau cytundeb, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu am y gwaith (amcangyfrif o £1 filiwn) ond wir yn costio tua £100,000 a'i gwmpasu drwy gynyddu'r prisiad a aseswyd o'r adeilad o £19 miliwn i £20 miliwn (pegwn uchaf yr amrediad o werthoedd tebygol ar y farchnad ar gyfer yr eiddo, fel y prisiwyd gan y syrfëwr siartredig). Noda'r ffaith bod ffatri LG Philips wedi gwerthu yn 2005 fod y prisiad hwn yn gywir, yn fras - roedd elw'r gwerthiant yn agos iawn at y prisiad. Mae ffigur y setliad, sef £34 miliwn yn weddol gywir felly.

## Roedd y cytundeb terfynol yn un da o dan yr amgylchiadau

**2.44** Trosglwyddwyd yr eiddo i berchenogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 30 Medi 2004, fel y cytunwyd. Fodd bynnag, bu ychydig o oedi, er mwyn datgysylltu'r offer ac adnewyddu'r seilwaith, cyn i LG Philips adael y safle'n gyfan gwbl. Talodd y cwmni rent marchnad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

**2.45** Fel gyda Hynix, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi talu am gostau penodol o ganlyniad i'r ffaith na chyflawnwyd y prosiect yn unol â'r bwriad:

- **a** Cynnal y safle, atgyweirio difrod i'r eiddo ac addasu prif adeilad LG Philips ar gyfer deiliaid newydd. Mae hyn yn debygol o gostio tua £1.75 miliwn i gyd o'r cyfnod y trosglwyddir perchenogaeth hyd at 31 Mawrth 2007.
- **b** Marchnata'r tir nas datblygwyd a'r adeiladau gwag.
- **c** Cymhellion i ddeiliaid newydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfarnu grant RSA o £5.4 miliwn i Grŵp Quinn, sy'n gweithgynhyrchu rheiddiaduron, i greu 460 o swyddi gweithgynhyrchu ar y safle.
- **ch** Cost cyngor cyfreithiol a chostau cysylltiedig cyd-drafodaethau â'r cwmni.

Gwrthbwyswyd y costau hyn gan incwm rhenti o tua £1.35 miliwn gan LGE, a wnaeth, hyd at Mawrth 2007, brydlesu rhai o’r adeiladau lleiaf ar y safle yn ôl ar gyfer pwrpasau storio. Bydd costau’r dyfodol yn isel oherwydd bydd cyfluniannau eraill yn dod yn gyfrifol am y

safle, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn buddio o werthiant ei eiddo ar y safle.

2.46 Ar y cyfan, mae'r setliad gyda'r cwmni yn un cymharol dda i'r trethdalwr:

a Gellir amddiffyn y swm a adenillwyd o'i gymharu â'r buddiannau a ddaeth yn sgîl y prosiect a cholledion mawr LGE ac LG Philips Displays. Mae'r swm yn 40 y cant o'r cyfanswm a oedd yn daladwy ar gyfer Cam 1, yn nhermau gwerth cyfredol. Ar adeg y setliad, parhaodd LGE i gyflogi nifer sylweddol o bobl ar y safle ac roedd i'r hyfforddiant a'r tir wedi'i wasanaethu a ddarparwyd gan y pecyn cymorth gwladwriaethol fudd parhaus hefyd i'r economi leol.

b Gwnaeth LGE golledion mawr ar y prosiect ac yn arbennig golled enfawr o ran y prisiad o'r eiddo a ddychwelwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Talodd y WDA £37.4 miliwn i ddatblygu eiddo ar y safle a gwneud iawn am y gwahaniaeth rhwng cost a gwerth ar y farchnad; roedd y gostyngiad gwirioneddol mewn gwerth dipyn yn uwch na hynny.

c Roedd achos yr Awdurdodau yng Nghymru dros adennill unrhyw grant heblaw am RSA, yr adenillwyd 98 y cant ohono, yn un gwan.

ch Gwnaeth y setliad osgoi'r angen i gymryd camau cyfreithiol problemus. Roedd swyddogion o'r farn bod achos LG yn wan, ond y byddai camau cyfreithiol, er hynny, wedi bod yn gostus (amcangyfrifodd swyddogion y byddent yn costio rhwng £3 miliwn a £5 miliwn), yn hirfaith ac yn llawn risg i Lywodraeth Cynulliad Cymru o gofio rhai o'r gwendidau yn ei hachos.

d Cyd-drafododd swyddogion yn frwd ac roeddent o'r farn nad oedd modd cael cytundeb gwell. Bu'r setliad yn fodd i osgoi chwalu'r berthynas ag LGE a'r risg y byddai'r cwmni'n cau ei ffatri yng Nghymru, gan ddileu'r holl swyddi a oedd yn weddill.

dd Bu trosglwyddo'r tir yn fodd i'r Awdurdodau yng Nghymru ailgylchu prif safle diwydiannol at ddefnyddiau amgen.

## Cymysg fu hanes y safle ers dod i gytundeb, ond nid oes swyddi wedi goroesi o'r prosiect gwreiddiol

2.47 Ymestynnodd LGE Wales ei weithrediadau yng Nghasnewydd yn 2004 gan gyflogi hyd at 750 o bobl i weithgynhyrchu monitorau cyfrifiaduron sgriniau gwastad, a oedd yn farchnad a oedd yn cynyddu ar y pryd. Prydlesodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fannau storio i'r cwmni gan weithio gydag ef i sicrhau'r cynllun gorau ar gyfer ffyrdd a gwasanaethau ar y safle a ail-gyfluniwyd; talwyd am y gwaith hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, am fod prisiau yn gostwng nid oedd y ffatri yn gwneud elw mwyach, a chwtogodd y cwmni ar ei gynhyrchiant a'i swyddi gryn dipyn cyn cyhoeddi ym mis Awst 2006 bod y ffatri yn mynd i gau ym mis Rhagfyr 2006. Mae'r penderfyniad hwn i gau'r ffatri yn golygu bod presenoldeb cwmnïau LG a'u holynwyr ar safle Casnewydd a'r buddiannau a grëwyd ganddynt i economi Cymru ar ben. Mae LGE wedi cytuno i werthu'r safle (ar ôl arfer yr opsiwn i brynu'r adeiladau a oedd yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru) i ddatblygwr eiddo mawr o Gymru at ddefnydd diwydiannol a masnachol.



**2.48** Mae'r prif adeilad, lle bu LG Philips gynt, wedi cael ei werthu i Grŵp Quinn am ei werth ar y farchnad i weithgynhyrchu rheiddiaduron. Mae'r 460 o swyddi gweithgynhyrchu medrus a grëir dipyn yn llai na'r nifer a gyflogwyd gan LG Philips Displays, ond maent yn cymharu'n dda iawn o ran ansawdd. Mae'r tir nas datblygwyd ar safle LGE yn eiddo i Lywodraeth y Cynulliad, mae'n barod i'w ddatblygu ac yn ennyn cryn ddiddordeb ymhlith ddatblygwyr.

**2.49** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru, hyd yma, wedi dod o hyd i ddeiliad ar gyfer safle Hynix, er bod nifer o gwmnïau wedi dangos diddordeb ynddo at ddefnyddiau amrywiol. Mae'n annhebygol y caiff yr adeilad ei ddefnyddio bellach at ei ddiben gwreiddiol, gan y byddai angen buddsoddi ynddo'n sylweddol er mwyn darparu ar gyfer y dechnoleg a'r dulliau cynhyrchu diweddaraf. Fodd bynnag, efallai y bydd diddordeb gan weithgynhyrchwyr lled-ddargludyddion o hyd gan fod y safle yn barod i'w feddiannu gyda gwasanaethau ar waith eisoes, lle y byddai angen amser ac arian ychwanegol, ar y llaw arall, ar safle maes glas ar gyfer gwaith paratoi a cheisiadau cynllunio. Mae maint a chynllun yr adeilad - mae ganddo lawer o bileri mawr a fawr ddim golau naturiol - yn cyfyngu ar ddiddordeb gan ddefnyddwyr eraill. Fodd bynnag, mae'r safle ei hun yn werthfawr iawn o gofio ei leoliad yn agos at yr M4 presennol a chanolfannau poblogaeth mawr, a'i agosrwydd at yr M4 newydd arfaethedig sy'n rhedeg i'r de ohono.

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 16:01 Page 40

# Atodiad 1 - Cronoleg

| | |
|---|---|
| Diwedd 1995 | Cwmnïau LG yn cysylltu â'r WDA i drafod y posibilrwydd o sefydlu prosiectau mawr yng Nghymru, a'r cymorth ariannol a allai fod ar gael gan y sector cyhoeddus. |
| Rhagfyr 1995 | Y Swyddfa Gymreig yn sicrhau cymeradwyaeth y Trysorlys i fynd y tu hwnt i'r gost arferol o £6,000 fesul swydd ar gyfer Ardal Ganolraddol, ar sail y bydd y prosiect yn fuddiol i ardaloedd cyfagos lle ceid diweithdra mawr. |
| Mawrth 1996 | Y WDA yn cael cymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig i drafod gyda'r cwmni ar sail cynnig dangosol o £84 miliwn o gymorth ariannol i LGE (3,200 o swyddi) ynghyd â thua £100 miliwn i LGS (1,700 o swyddi). |
| Mehefin 1996 | Cyd-drafodaethau yn Korea yn dod i gasgliad llwyddiannus, gyda chwmni yn cytuno ar becyn cymorth gwerth £243 miliwn. Eglurwyd ffurf a swm y cymorth dros y misoedd canlynol a gwerth terfynol y cymorth a gynigiwyd oedd £247.2 miliwn. |
| Gorffennaf 1996 | Cyhoeddi'r prosiect a llofnodi'r cytundeb fframwaith. Noda hyn fuddsoddiad y cwmnïau a'i amseriad a'r cymorth gan yr Awdurdodau yng Nghymru, noda'n benodol nifer y swyddi i'w creu ac amlinella'r prif amodau sy'n gysylltiedig â'r arian. Rhydd y Trysorlys gymeradwyaeth amodol i'r pecyn cymorth. |
| Medi 1996 | Y Swyddfa Gymreig yn cwblhau gwerthusiad manwl o'r cais am grant RSA. Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru (WIDAB) yn cymeradwyo'r prosiect. |
| Hydref 1996 | Y Trysorlys yn cymeradwyo’r prosiect.<br>Y WDA yn parhau i baratoi safle i'w feddiannu gan gwmnïau LG. |
| Rhagfyr 1996 | Y Swyddfa Gymreig yn hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd o'r pecyn cymorth ar gyfer datblygiadau LG yn ffurfiol. |
| Ionawr 1997 | Seremoni torri tywarch ar gyfer y prosiect electroneg. |
| Ebrill 1997 | Y CE yn cymeradwyo pecyn cymorth gwladwriaethol i LG, ond yn amodi bod yn rhaid trin prosiectau ar wahân. |
| Mehefin 1997 | Llofnodi'r cytundebau cyfreithiol ar gyfer pecyn cymorth. |



## Lled-ddargludyddion LG/Hynix

| | |
|---|---|
| Drwy gydol 1997 | Codi'r adeilad gweithgynhyrchu. |
| Medi 1998 | Y prosiect lled-ddargludyddion yn cael ei atal dros dro am 12 mis, ar ôl cwblhau cragen adeilad y ffatri, o ganlyniad i amodau gwael y farchnad. Caiff y gwaith ei atal eto yn 1999 cyn penderfyniad i roi'r gorau i'r prosiect. |
| Mehefin 1999 | Hyundai Electronic Industries yn caffael LG Semicon Wales fel rhan o'r broses ailstrwythuro gorfforaethol a orchmynnwyd gan Lywodraeth Korea mewn ymateb i argyfwng economaidd y wlad. Cafodd ei ailenwi yn Hyundai Micro-electronics Wales Ltd, ac yn 2000, yn Hynix Semi-conductor Wales Ltd. |
| Mawrth 2000 | Hynix yn comisiynu PricewaterhouseCoopers i farchnata'r safle i weithgynhyrchwyr lled-ddargludyddion eraill, ond methiant fu'r ymdrechion. |
| Awst 2001 | Y WDA yn sicrhau arwystl cyfreithiol dros eiddo ac asedau Hynix. Os na fydd Hynix yn parhau i fuddsoddi neu os bydd yn methu â chyhoeddi ei fwriadau i fuddsoddi erbyn 31 Rhagfyr 2002, caiff arwystl ei godi. Rhaid i'r WDA gadarnhau erbyn 9 Rhagfyr 2001 y bydd y pecyn cymorth yn parhau i fod ar gael. |
| Rhagfyr 2001 | Ni all y WDA fodloni telerau ei arwystl, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrthod cadarnhau y bydd y pecyn cymorth ar gael am amserlen prosiect estynedig hyd nes y bydd wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Mehefin 2002 | Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd o newidiadau i'r prosiect lled-ddargludyddion ac yn gofyn am estyniad i'r amserlen fuddsoddi tan fis Mehefin 2005. |
| Rhagfyr 2002 | Y terfyn amser ar gyfer arwystl cyfreithiol yn mynd heibio heb i Hynix gyhoeddi unrhyw fuddsoddiad ar gyfer y dyfodol. |
| Chwefror 2003 | Y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi y caiff unrhyw estyniad ei drin fel prosiect newydd a'i asesu o dan reolau newydd. |
| Mai 2003 | Y WDA a Hynix yn cychwyn ar gydfenter i werthu'r adeilad, a Hynix yn trosglwyddo tir cyfagos i'r WDA am ddim. |
| Chwefror - Mai 2004 | Y WDA a Hynix yn llofnodi tri chytundeb olynol a fyddai'n diddymu rhwymedigaeth Hynix i ad-dalu cymorth yn gyfnewid am drosglwyddo adeilad a thaliad arian parod i'r WDA. |
| Ionawr 2005 | Hynix yn talu £13 miliwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn setliad llawn a therfynol. |
| Mawrth 2005 | Trosglwyddo'r adeilad i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ddim. |

## LG Electronics

| | |
|---|---|
| Ionawr 1997 | Seremoni torri tywarch. |
| 1997 | Y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n dda a'r broses o gynhyrchu monitorau yn dechrau ar ddiwedd 1997, gyda 500 o gyflogeion ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 1998 | Y gwaith adeiladu a'r gosodiadau yn parhau, gyda 1,600 o gyflogeion erbyn diwedd y flwyddyn. |
| 1999 | Taliad terfynol o'r grant. |
| 2000 | Yn cyrraedd ei anterth o ran gwerthiannau a chyflogaeth. |
| 2001 | Y farchnad CRT yn dechrau dirywio'n sydyn. Colledion yn cynyddu. |
| Mehefin 2001 | LG Electronics yn trefnu cydfenter â Philips - LG Philips Displays - ac yn trosglwyddo'r busnes CRT cyfan i'r fenter newydd. Dim ond y ffatri cydosod monitorau sydd o dan berchenogaeth LGEW yng Nghasnewydd. |
| Rhagfyr 2002 | LG Philips Displays yn rhybuddio Awdurdodau yng Nghymru o'r posibilrwydd y caiff ei ffatri ei chau yng Nghasnewydd o ganlyniad i golledion mawr a rhagolygon gwael ar y farchnad. Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhybuddio LGEW ei bod yn bwriadu adennill cymaint o gymorth cyhoeddus â phosibl. |
| Mawrth 2003 | Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau cyd-drafod ag LG Electronics i adennill cymorth cyhoeddus. |
| Mai 2003 | LG Philips Displays yn cyhoeddi bod ffatri Casnewydd yn cau, mae'r gweithrediad yn dod i ben ym mis Awst gan ddileu 870 o swyddi. |
| Hydref 2003 | LGE yn cytuno ar brif delerau ar gyfer y cytundeb setliad. |
| Mawrth 2004 | LGE yn llofnodi'r cytundeb setliad terfynol gydag Awdurdodau yng Nghymru, ac yn dychwelyd £34 miliwn (£20 miliwn o eiddo a £14 miliwn o arian parod) i Lywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Hydref 2004 | LG Philips Displays yn gadael y safle ac yn trosglwyddo eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Y WDA yn dod yn gyfrifol am gynnal y safle ac yn dechrau ei farchnata ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Gorffennaf 2005 | LGEW yn llunio cytundebau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfnewid perchenogaeth o adeiladau penodol a phrydlesu eraill at ddibenion storio. |
| Awst 2005 | Cyhoeddiad y bydd Grŵp Quinn yn prynu'r ffatri segur i weithgynhyrchu rheiddiaduron, gan fuddsoddi £134 miliwn a chreu 460 o swyddi. |
| Awst 2006 | LGE yn cyhoeddi bod y ffatri cydosod monitorau yn cau. |
| Rhagfyr 2006 | LGE yn cau'r ffatri cydosod monitorau gan ddileu'r holl swyddi (ac eithrio nifer fach o staff a gadwyd tan fis Mawrth 2007). |

LG report Welsh version3.qxp 01/03/2007 16:02 Page 43



# Atodiad 2 - Canlyniad y gwerthusiadau o'r prosiectau

## Dichonolrwydd ariannol y cwmnïau

1 Roedd LGE ac LGS fel ei gilydd yn gwmnïau amlwladol mawr gyda sail asedau gwerth biliynau o ddoleri. Roedd LGS yn arbennig yn tyfu'n gyflym ac yn gwneud llawer o elw. Roedd gan y ddau gwmni y gallu i gael cyllid drwy fusnes enfawr LG enfawr. Bryd hynny, nid oedd rheswm dros amau dichonolrwydd ariannol y cwmnïau. Roedd anawsterau ariannol grŵp Hynix, a ymgymerodd â phrosiect LGS yn 1999, yn deillio o chwalfa yn economi Korea yn 1998 a'r broses ailstrwythuro gorfforaethol ganlynol a orchmynnwyd gan lywodraeth Korea. Ni allai'r swyddogion arfarnu na'u cynghorwyr yn rhesymol fod wedi rhagweld y naill ddigwyddiad na'r llall yn 1996.

## Marchnadoedd i'r cynnyrch

2 LGS: roedd tuedd gadarn am i fyny o ran y galw am led-ddargludyddion, er bod prisiau wedi lleihau hyd at 70 y cant yn 1995 oherwydd bod cyflenwad yn uwch na'r galw. Bu'r farchnad yn destun amrywiadau cylchol sydyn yn draddodiadol, a chredid y byddai'r farchnad yn ei hanterth eto yn 1999 pan ddeuai'r ffatri newydd yn weithredol. Rhoddwyd sicrwydd i swyddogion hefyd y byddai'r ffatri yng Nghasnewydd yn cynhyrchu sglodion cof 64 megabyte, sef y mwyaf datblygedig ar y farchnad ar y pryd.

3 LGE: rhagwelwyd y byddai'r galw am fonitorau a thiwbiau pelydrau catod (cydran bwysig o'r holl setiau teledu a monitorau cyfrifiaduron) yn cynyddu'n sylweddol, ac y byddai gan y prosiect farchnad fewnol fawr o fewn Grŵp LG: byddai'n gwneud CRT a chydrannau ar gyfer y safle cydosod monitorau ac ar gyfer ffatri LG yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr. Fodd bynnag, roedd y technolegau sgriniau gwastad ar gyfer monitorau cyfrifiaduron - nad oedd angen CRT arnynt, ond a oedd yn dibynnu, yn hytrach, ar arddangoswyr crisialau hylif - yn fygythiad i gynhyrchion CRT.

## Arian y prosiect a phrosesau cynhyrchu

4 Adolygodd cyfrifwyr y cynlluniau busnes a theithiodd swyddogion i Korea i ymweld â chyfleusterau cynhyrchu a thrafod cynlluniau cynhyrchu cwmnïau yng Nghasnewydd. Roedd swyddogion yn dibynnu o reidrwydd ar amcangyfrif LG ei hun o gost gyfalaf peiriannau a chostau gweithredu, ond comisiynodd brisiadau annibynnol o gostau adeiladu. Fodd bynnag, roedd y manylion am elfennau cost gychwynnol gyffredinol y prosiect yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd ohonynt yn annigonol. Nid oedd yn eglur a gafodd ffioedd proffesiynol eu cynnwys yn ffigurau LG, ac a gafodd costau sefydlu megis hyfforddiant eu cynnwys ai peidio.

## Prisio eiddo

5 Comisiynodd y WDA King Sturge, cwmni o syrfewyr siartredig i wneud prisiad annibynnol o'r datblygiad eiddo arfaethedig. Roedd y prisiad, yn ei hanfod, yn un ansicr oherwydd maint anferth y datblygiad a'i natur arbenigol iawn, ond roedd yn amlwg bod y gwahaniaeth rhwng gwerth y datblygiad ar y farchnad a'r

gost adeiladu dipyn yn fwy na'r cymorth eiddo a roddwyd gan y WDA.

## Effaith ehangach

**6** Nododd y gwerthusiad economaidd llawn y byddai'r prosiectau'n gwneud cyfraniad net o £99 miliwn i incwm cenedlaethol y DU dros ddeng mlynedd: £94 miliwn i LGS a £18 miliwn i LGE, llai £13 miliwn am werth amcangyfrifedig y safle y bwriedid ei drosglwyddo i LG am swm nominal. Mae’r cyfraniad net yma yn gyfwerth â'r dreth gorfforaethol a dalwyd ar elw gan y cwmnïau, llai y gost o gymorth cyhoeddus i'r prosiectau, ac mae'n rhaid ei fod yn ffigur cadarnhaol i fodloni'r Trysorlys y dylid cefnogi'r prosiect.

**7** Roedd y ffigur ar gyfer LGS yn gallu gwrthsefyll newidiadau negyddol yn nifer y gwerthiannau a'r prisiau, ond deuai'r budd i LGE yn negyddol pe bai'r gwerthiannau'n lleihau saith y cant y flwyddyn neu'r prisiau'n lleihau 2.5 y cant y flwyddyn. Fel y bu, rhoddodd LGS y gorau i gynhyrchu yn 1999 ac ni wnaeth LGE unrhyw elw, gan dalu bron ddim treth gorfforaethol. Mae'r prosiectau felly wedi gwneud cyfraniad negyddol mawr i incwm cenedlaethol y DU, gan fod cost net y cymorth cyhoeddus i'r prosiectau yn llawer uwch na'r derbyniadau treth gorfforaethol o tua £58 miliwn.

**8** Ystyriodd y gwerthusiad hefyd yr effaith ar gyflenwyr, sgiliau'r gweithlu a chynhyrchwyr lled-ddargludyddion a chynhyrchion electronig presennol yn y DU, ond ni cheisiodd feintoli'r effeithiau hyn. Daeth i'r casgliad bod yr effeithiau yn hynod gadarnhaol, gan y byddai'r adnoddau cynhyrchu newydd yn disodli mewnforion gan mwyaf ac y byddai maint y buddsoddiad yn hybu'r farchnad lafur a'r farchnad ar gyfer cyflenwyr cydrannau.

## Ychwanegedd (gwerth ychwanegol)

**9** Mae'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau cyhoeddus gynnig yr isafswm grant sydd ei angen i beri i gwmni leoli ei brosiect yn y rhanbarth a ddymunir. Roedd y Swyddfa Gymreig yn glir iawn, heb y pecyn cymorth a gyd-drafodwyd, y byddai'r prosiect wedi'i leoli mewn man arall yn Ewrop ac y byddai'r cyfle ar gyfer y prosiect electroneg sylweddol hwn wedi'i golli i Gymru a'r DU. Nododd y cwmnïau fod Iwerddon, Gwlad Belg a'r Almaen wedi cynnig pecynnau deniadol iawn, ac mewn sawl achos, bod y rhain yn llawer uwch na'r hyn a gynigiwyd gan Gymru. Fodd bynnag, ni allai'r Awdurdodau yng Nghymru gadarnhau hyn, gan fod ymdrechion i sicrhau buddsoddiadau mawr yn hynod gystadleuol a chyfrinachol. Gall buddsoddwyr ddefnyddio hyn er eu budd hwy mewn cyd-drafodaethau, ac mae'r penderfyniad terfynol ar yr hyn y dylid ei gynnig bob amser yn fater o farn. Mynegodd y Trysorlys rai pryderon ynglŷn â'r ychwanegedd ond cymeradwyodd y prosiect ar ôl ystyried yr holl ffactorau.

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennau arfarnu a gohebiaeth gan y Swyddfa Gymreig, yr Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys EM*